



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG43511

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd 2021

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Chwefror 2022

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar nifer o welliannau i Raglen Dileu TB Llywodraeth Cymru.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 8 Chwefror 2022.

Gallwch ymateb drwy e-bostio: bovinetb@llyw.cymru

Neu drwy ddefnyddio ein [gwefan](#)

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Tîm TB
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: bovinetb@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document also available in English: <https://gov.wales/refreshed-tb-eradication-programme-2021>

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i gael 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

1. Rhagair gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru
2. Sefyllfa'r clefyd
3. Dull rhanbarthol o Ddileu TB
4. Targedau dileu
5. Profion TB
6. Prynu Gwybodus
7. Talu am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB
8. Archwilio'r posibilrwydd o wahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)
9. TB a rhywogaethau nad ydynt yn fuchol
10. Llywodraethu
11. Cwestiynau eraill
12. Y camau nesaf
13. Atodiad 1
14. Atodiad 2 – Geirfa

1. Rhagair gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Cyflwynwyd Rhaglen i Ddileu TB buchol yng Nghymru am y tro cyntaf yn 2008, ac ers hynny rydym wedi bod ar daith gyda'r nod yn y pen draw o gael ein cydnabod fel rhanbarth â statws heb TB swyddogol o'r Deyrnas Unedig. Roeddem yn gwybod y byddai'r daith yn un hir ac anodd ar adegau, ond rydym wedi parhau'n ddigyfaddawd yn ein hymrwymiad a'n penderfyniad cyson i waredu Cymru o glefyd sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ledled y diwydiant ffermio yng Nghymru.

Dros y blynyddoedd rydym wedi gwneud gwelliannau i'n rhaglen ac wedi cyflwyno llawer o bolisiâu sylfaenol sydd wedi newid y tirlun TB ledled Cymru, gan osod sylfeini ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, yn 2010, cyflwynwyd profion TB blynyddol ar gyfer pob buches yng Nghymru. Ystyrir y profion hyn yn gonglfaen i'n Rhaglen, ac rydym yn parhau i brofi pob buches o leiaf bob blwyddyn, er mwyn canfod y clefyd yn gyflym. Yn 2012, sefydlwyd yr Ardal Triniaeth Ddwys yn ne-orllewin Cymru. Yn ogystal â chyflwyno mesurau rheoli gwartheg cryfach yn yr ardal hon gan gynnwys profi buchesi bob 6 mis, dechreuwyd rhaglen brechu moch daear 5 mlynedd. Er mai dim ond am 4 o'r 5 mlynedd yr oedd yn bosibl i ni frechu moch daear oherwydd prinder byd-eang o'r brechlyn BCG yn 2015, mae cynnydd sylweddol a pharhaus wedi'i wneud o safbwynt mynychder TB yn yr ardal hon. Cyflwynwyd Cymorth TB yn 2013, a oedd yn darparu cymorth di-dâl i ffermwyr gan eu milfeddyg preifat eu hunain ar gyfer achosion newydd o TB, cyn ehangu'r ddarpariaeth hon yn 2018 i gategoriâu eraill o fuchesi. Cyflwynwyd yr Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan yn 2014 – mae'r arolwg yn parhau heddiw ac mae'n darparu gwybodaeth bwysig iawn am lefelau TB mewn moch daear. Mae llawer mwy o enghreifftiau o fentrau sydd wedi newid sut rydym yn ymdrin â TB mewn gwartheg yng Nghymru ac sy'n darparu tystiolaeth bwysig sydd wedi llunio ein Rhaglen.

Yn 2017, yn dilyn ymgynghoriad trylwyr, cyhoeddwyd Rhaglen Dileu TB a Chynllun Cyflawni o'r newydd. Roedd y Rhaglen i Ddileu TB yn cyflwyno ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru, gan nodi pedair egwyddor allweddol rheoli clefyd yr haint sy'n sylfaen i'r rhaglen: Ei Gadw Allan, Ei Ddarganfod yn Gyflym, Ei Rwystro Rhag Lledaenu a Chael Gwared Arno. Mae'r weledigaeth hon a sylfaen ein rhaglen yn parhau i fod yr un fath heddiw. Cyflwynodd y Rhaglen i Ddileu TB y cysyniad o ddull rhanbarthol at ddibenion rheoli TB yng Nghymru, gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel. Rydym yn parhau i fabwysiadu'r dull rhanbarthol hwn, gan fynd i'r afael â sbardunau unigol y clefyd ym mhob ardal, ac ymateb yn hyblyg i sefyllfa newidiol y clefyd ar lawr gwlad. Roedd y Cynllun Cyflawni yn cynnwys darparu Cynlluniau Gweithredu pwrpasol ar gyfer haint sy'n parhau yn y fuchesi, cyflwyno Profion Ar ôl Symud yn yr Ardal TB Isel a chyflwyno cap ar gyfer taliadau TB.

Mae'r ystadegau hirdymor diweddaraf, a gyflwynir yn y ddogfen hon, yn dangos darlun addawol, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd. Rydym yn gweld cynnydd mewn achosion o TB mewn ardaloedd a oedd â lefelau cymharol isel o achosion o TB cyn hyn, ac mae hyn yn peri pryder. Dyma'r amser cywir i gyflymu'r rhaglen gyfan a mynd i'r afael ag ardaloedd newydd sy'n cael problemau TB mynych.

Rydym wedi dysgu llawer am ddileu TB dros y 13 blynedd diwethaf, ond mae agwedd allweddol wedi aros yn ddigyfnewid. Ni fydd modd dileu TB heb weithio mewn partneriaeth gyda'n rhanddeiliaid allweddol – ffermwyr, cyrff cynrychioliadol a'r proffesiwn milfeddygol. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn i chi helpu i lunio



ein polisïau a'n mentrau yn y dyfodol a rhannu eich safbwyntiau ar feysydd y mae angen i ni eu cryfhau. Bydd ein cam nesaf yn allweddol i lwyddiant y Rhaglen ac edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

2. Sefyllfa'r clefyd

Ers dechrau'r Rhaglen i Ddileu TB yn 2008, rydym wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ein nod trwy sicrhau tuedd ar i lawr yn nifer yr achosion newydd o TB ynghyd â gostyngiad hirdymor yn nifer yr achosion.

Mae'r ffigurau misol ar gyfer 2008 i fis Mehefin 2021 fel a ganlyn.

Ffigur 1: Achosion newydd mewn buchesi yng Nghymru, Ionawr 2008 - Mehefin 2021



Ffynhonnell: Ystadegau TB Defra ar 15 Medi 2021


Mae Ffigur 1 yn dangos bod achosion newydd mewn buchesi wedi dangos tuedd ar i lawr hirdymor ers y penllanw yn 2008, pan oedd 1,198 o achosion newydd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2020, cafwyd 613 o achosion newydd mewn buchesi yng Nghymru, sef y ffigur blynyddol isaf ers 2001.

Ar lefel ranbarthol, bu cynnydd da mewn rhai Ardaloedd TB gyda thuedd ar i lawr mewn achosion newydd mewn buchesi yn Ardal TB Uchel (Dwyrain) ac Ardal TB Uchel (Gorllewin). Yn y ddwy ardal hyn gwelsom y nifer isaf o achosion newydd mewn buchesi yn ystod 2020 ers 2001.

Fodd bynnag, mae sefyllfa'r clefyd wedi dirywio yn Ardal TB Canolradd (Gogledd) a'r Ardal TB Isel, a chyflwynwyd mesurau newydd yn yr ardaloedd hyn yn ystod 2021.

Ffigur 2: Anifeiliaid a laddwyd i reoli TB yng Nghymru, Ionawr 2008 - Mehefin 2021

Anifeiliaid a laddwyd i reoli TB yng Nghymru



Ffynhonnell: Ystadegau TB Defra ar 15 Medi 2021

Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y gwartheg a laddwyd oherwydd rheolaethau TB. Roedd y duedd gyffredinol yn amrywio. Gellir priodoli llawer o'r cynnydd ers 2014 i gynyddu'r defnydd o brofion sensitifrwydd uchel, gyda'r nod o symud anifeiliaid heintiedig o'r fuches yn gyflym. Er enghraifft, defnyddiwyd profion gama, dileu Adweithyddion Amhendant a dehongliad caeth iawn o'r prawf croen er mwyn ceisio clirio'r haint a lleihau'r risg y bydd y clefyd yn lledaenu ac y bydd achosion newydd yn codi.

Yn dilyn adolygu ac argaeledd profion gwell (prawf gwrthgyrff IDEXX), cyflwynwyd polisi diwygiedig ym mis Ionawr 2020 (a weithredwyd yn llawn ym mis Chwefror 2020) sy'n berthnasol i adweithyddion amhendant mewn buchesi'r cynllun gweithredu. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cychwynnol mewn profion Adweithyddion Amhendant caeth iawn gyda phrawf gama interferon a phrawf Gwrthgyrff IDEXX cyfochrog yn hytrach na chael ei symud yn y prawf croen.

Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan

Ers mis Medi 2014 hyd at Gorffennaf 2021, mae TB buchol mewn moch daear a ganfuwyd yn farw wedi cael ei fonitro ledled Cymru. Mae Tabl 1 a ffigur 3 yn cyflwyno canlyniadau Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan Dyma'r canlyniadau o fis Medi 2014 tan ddiwedd mis Gorffennaf 2021:


Tabl 1: Cyflwyniadau a chanlyniadau Arolwg Moch Daear Marw Cymru Gyfan yn ôl Ardal TB, Medi 2014 i Orffennaf 2021

Ardal TB	Samplau positif	Samplau negyddol	Samplau cyfanswm	Canran gadarnhaol
Ardal TB Uchel (Dwyrain)	71	311	382	18.6%
Ardal TB Uchel (Gorllewin)	54	499	553	9.8%
Ardal TB Canolradd (Canolbarth)	10	404	414	2.4%
Ardal TB Canolradd (Gogledd)	8	180	188	4.3%
Ardal TB Isel	1	280	281	0.4%
Cymru	144	1,674	1,818	7.9%

Ffynhonnell: Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan (AWBFD) gyda'r canlyniadau hyd at Gorffennaf 2021, yn gywir ar 4 Tachwedd 2021

O'r 1,818 o garcasau moch daear a brofwyd, profodd 144 (7.9%) yn bositif am *M. bovis*. Mae un sampl o fis Gorffennaf 2021, sydd ar hyn o bryd yn aros am ganlyniad ac nad yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae Ffigur 3 yn dangos bod lefelau'r haint yn amrywio mewn moch daear yng Nghymru.

Ffigur 3: Cyflwyniadau a chanlyniadau Arolwg Moch Daear Marw Cymru Gyfan, Medi 2014 i Orffennaf 2021



3. Dull rhanbarthol o Ddileu TB

Yn 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru ddull rhanbarthol o Ddileu TB trwy greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel. Mae sefyllfa a risgiau'r clefyd yn wahanol ym mhob un o'r ardaloedd TB. Y meini prawf ar gyfer pob ardal yw:

- Ardal TB Isel: Ardal ble mae llai na 0.2% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.
- Ardal TB Canolradd: Ardaloedd lle mae llai na 5% ond mwy na 0.2% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.
- Ardal TB Uchel: Ardaloedd lle mae mwy na 5% o fuchesi wedi cael achos o TB mewn blwyddyn.

[Mae map Rhanbartholi TB Cymru sy'n dangos yr Ardaloedd TB i'w weld ar Fap Data Cymru.](#)

Mae sefyllfa a risgiau'r clefyd yn wahanol ym mhob un o'r ardaloedd. Mae dull rhanbarthol yn ein galluogi i deilwra amrywiol fesurau rheoli ac atal ym mhob un o'r ardaloedd.

Ardal TB Isel

Disgrifiad o'r Ardal

Yr ardal yw'r Gogledd-orllewin sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd a Gogledd-orllewin Clwyd. Buchesi eidion yw mwyafrif y buchesi gyda llawer o gynhyrchwyr yn prynu gwartheg stôr ac yn gwerthu gwartheg wedi'u pesgi. Mae mwyafrif y symudiadau o fewn yr ardal ei hun.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae nifer yr achosion newydd o TB a chanran y buchesi sydd o dan gyfyngiadau oherwydd TB (mynychder mewn buchesi) wedi bod yn isel iawn yn yr Ardal TB Isel dros gyfnod o flynyddoedd lawer ac mae mynychder mewn buchesi yn is nag 1% yn gyson. Fodd bynnag, dechreuodd hyn gynyddu ym mis Mawrth 2021 ac roedd yn parhau i fod yn 1.4% ar ddiwedd mis Mehefin 2021.
- Mae ffigurau diweddaraf Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan o fis Medi 2014 hyd at fis Gorffennaf 2021 yn dangos bod un o garcasau moch daear wedi profi'n bositif gan arwain at gyfradd mynychder o 0.4%

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg o nifer cynyddol o achosion TB newydd mewn ardaloedd lleol o'r Ardal TB Isel, ("ardal a phroblemau TB") yn ardaloedd Dinbych a Chonwy ac mewn ardal lai o ran maint ym Mhennal.
- Y canfyddiad allweddol diweddar yw'r ffaith bod cysylltiad lleol rhwng yr achosion newydd hyn. Ers blynyddoedd lawer, ystyriwyd bod achosion newydd yn yr Ardal TB Isel wedi deillio'n bennaf o anifeiliaid a brynwyd, gyda chofnodion o wartheg wedi'u symud o ardal â mwy o achosion o TB.
- Fodd bynnag, mae tystiolaeth epidemiolegol bellach yn dangos bod achosion o TB yn yr ardaloedd hyn â phroblem TB yn rhannu straen genetig tebyg o *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*), sy'n dangos lledaeniad y clefyd yn lleol. Yn ogystal, mae symudiadau gwartheg lleol a chysylltiadau busnes agos eraill wedi'u

nodi sy'n cysylltu rhai o'r achosion hyn. Mae'n debygol bod yr achosion newydd wedi deillio o anifail yn symud o ardal TB risg uwch gan arwain at achosion newydd yn 2017 ac i'r clefyd ledaenu wedyn.

Beth rydym yn ei wneud

- Mewn ymateb i'r achosion newydd o TB ac i ddiogelu statws iechyd hirdymor yr Ardal TB Isel, cyflwynwyd nifer o fesurau newydd fesul cam rhwng 1 Mehefin a mis Tachwedd 2021.
- Un newid allweddol oedd symud yr unedau gofodol CL1, CL2 a GW1 i'r Ardal TB Canolradd (Gogledd). Un o ganlyniadau hyn yw'r gofyniad i gynnal Prawf Cyn Symud (nid oes gofyniad i gynnal Prawf Ar ôl Symud).
- Yn ogystal â'r unedau gofodol CL1, CL2 a GW1, ym Mhennal bydd profion cyffiniol ychwanegol yn cael eu cynnal. Hefyd, bydd ymweliadau milfeddygol "Ei Gadw Allan" di-dâl yn cael eu cynnig i geidwaid y mae eu buchesi'n profi'n negyddol mewn prawf cyffiniol.
- Anfonwyd llythyr i ffermydd yn un o'r ardaloedd sydd wedi'i heffeithio ddechrau mis Hydref i'w hatgoffa am y newidiadau dros dro.
- Mae sensitifrwydd* y profion ar gyfer buchesi lle mae achosion o TB ac mewn rhai profion goruchwyllo allweddol yn cael ei gynyddu
- Cyflwynwyd profion goruchwyllo ychwanegol mewn buchesi sydd wedi profi'n glir ac mewn buchesi sydd nesaf at fuchesi lle y cafwyd achosion o TB
- Ceisio gwella prosesau cyfathrebu ar gyfer mesurau ymarferol y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn heintio buches a lleihau lefelau trosglwyddo'r clefyd o fewn buches.

**Sensitifrwydd profion yw'r tebygolrwydd y bydd prawf yn nodi bod anifail heintiedig yn bositif. Pan fydd sensitifrwydd profion yn cynyddu, mae penodolrwydd (y tebygolrwydd y bydd anifail nad yw wedi'i heintio yn profi'n negyddol) yn lleihau.*

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Trwy gynyddu goruchwyliaeth a chynyddu sensitifrwydd profion yn yr unedau gofodol sy'n cael eu heffeithio'n bennaf, rydym yn gobeithio nodi'r haint yn gynharach mewn buchesi ac mewn anifeiliaid unigol, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn aros yn y fuchesi pan fydd cyfyngiadau'n cael eu codi pan fydd yr achosion yn dod i ben.

Ardal TB Canolradd (Gogledd)

Disgrifiad o'r Ardal

Mae'r ardal yn y Gogledd-ddwyrain ac mae'n cynnwys rhan o Glwyd nad yw wedi'i chynnwys yn yr Ardal TB Lefel Isel. Mae gan yr ardal hon gyfran uchel o fuchesi godro a gwartheg godro o gymharu ag ardaloedd eraill. Daw tua hanner yr holl symudiadau i'r ardal o'r siroedd cyfagos yn Lloegr (Swydd Gaer a Swydd Amwythig) sydd wedi'u dosbarthu yn 'Ardaloedd Risg Uchel'. Y rheswm tebygol am hyn yw'r ffaith bod mwy o fuchesi godro yn yr ardal, a'r ffaith bod gan rai ffermydd dir o boptu'r ffin.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae'r mynychder mewn buchesi yn yr ardal hon wedi bod yn cynyddu ers 2017, ac mae 8.1% o fuchesi dan gyfyngiadau ar hyn o bryd oherwydd TB.
- Roedd mynychder mewn buchesi ar ddiwedd Ch2 2021 yr ail uchaf yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'r nifer yn uwch nag yn Ardal TB Uchel (Dwyrain).
- Mae gan yr ardal gyfran uchel o achosion ail-heintio o fewn 18 mis i godi'r cyfyngiadau o'i gymharu â'r rhan fwyaf o'r ardaloedd eraill.
- Y rhan o'r Ardal TB Canolradd (Gogledd) sy'n cael ei heffeithio waethaf yw'r clwstwr ger y ffin yn Lloegr gydag unedau gofodol CL7 a CL8 sy'n cyfrif am lai na 30% o fuchesi gwartheg Ardal TB Canolradd (Gogledd) ond 77% o achosion agored a 59% o'r achosion newydd ar ddiwedd Ch2 2021.
- Mae ffigurau diweddaraf Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan o fis Medi 2014 hyd at fis Gorffennaf 2021 yn dangos bod 8 o garcasau moch daear wedi profi'n bositif gan arwain at gyfradd mynychder o 4.3%

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

Mae cysylltiad agos rhwng y rhan fwyaf o'r arunigion *M. bovis* mewn achosion y tu allan i CL7 a CL8 â'r rhai mewn ardaloedd endemig yn y clwstwr ar y ffin sy'n cwmparu rhannau o Gymru a Lloegr. Hefyd, mae epidemioleg molecwlaidd yn awgrymu bod gwartheg wedi symud yn lleol i'r clwstwr ger y ffin â Lloegr (CL7 a CL8) o ardaloedd TB endemig cyfagos yn Swydd Amwythig a Swydd Gaer, sydd wedi arwain at gynnydd pellach. Mae haint gweddilliol a haint amhenodol (lle nad yw anifeiliaid heintiedig yn cael eu nodi yn hawdd trwy brofion goruchwyllo) yn ffactor pwysig hefyd. Yn olaf, mae trosglwyddo lleol yn agwedd bwysig, yn enwedig yn uned ofodol CL8.

Mae nodweddion y clefyd sy'n cefnogi'r datganiadau hyn yn cynnwys:

- Mae'r gyfradd ailheintio yn gymharol uchel ac mae ailgyflwyno'r clefyd drwy symud gwartheg o'r Ymyl a'r Ardal Risg Uchel gyfagos yn ogystal â haint gweddilliol wedi arwain at achosion newydd gydag arunigion *M. bovis* yn union yr un fath neu'n debyg iawn i'r rhai mewn achosion blaenorol.
- Mae dilyniannu genetig wedi awgrymu bod yr haint yn cael ei drosglwyddo ar draws ffiniau sirol a gwlad gan arwain at wasgariad cartref o'r genotype TB mewn rhannau o orllewin Swydd Amwythig a de-orllewin Swydd Gaer.
- Mae sawl achos wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda nifer fawr o adweithyddion.
- Yn ôl tystiolaeth goruchwyllo bywyd gwyllt goddefol, nid oedd unrhyw gronfa sylweddol gydnabyddedig o'r clefyd yn y boblogaeth o foch daear tan yn ddiweddar, gan fod pump o'r saith mochyn daear â phrawf cadarnhaol a ganfuwyd yn yr Ardal TB Canolradd (Gogledd) wedi'u cyflwyno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Beth rydym yn ei wneud

- Mae sensitifrwydd y profion ar gyfer buchesi lle mae achosion o TB ac mewn rhai profion goruchwyllo allweddol yn cael ei gynyddu.
- Cyflwynwyd profion goruchwyllo ychwanegol mewn buchesi sydd wedi profi'n glir ac mewn buchesi sy'n agos at fuchesi lle y cafwyd achosion o TB.

- Ceisio gwella prosesau cyfathrebu ar gyfer mesurau ymarferol y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn heintio buches a lleihau lefelau trosglwyddo'r clefyd o fewn buches.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Trwy gynyddu goruchwyliaeth a chynyddu sensitifrwydd profion yn yr unedau gofodol sy'n cael eu heffeithio'n bennaf, rydym yn gobeithio nodi'r haint yn gynharach mewn buchesi ac mewn anifeiliaid unigol, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn aros yn y fuches pan fydd cyfyngiadau'n cael eu codi pan fydd yr achosion yn dod i ben.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae angen diogelu'r ardal rhag i TB gael ei gyflwyno drwy symud gwartheg o ardaloedd clefyd uwch ac ymdrin â lefel y clefyd sydd eisoes yn bodoli yno. Ar hyn o bryd, ychydig o ardaloedd sydd â mwy o achosion TB na'r clwstwr yn yr Ardal TB Canolradd (Gogledd) ger y ffin â Lloegr. Er mwyn gwneud hyn mae angen newid y mesurau rheoli gwartheg i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r haint sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Ni ellir diystyru trosglwyddiad lleol gan fywyd gwyllt, ac mae angen dilyn mesurau bioddiogelwch a ddefnyddir mewn ardaloedd endemig.
- Gan fod haint wedi'i ganfod mewn moch daear a gasglwyd yn ystod yr Arolwg o Foch Daear Marw, gallai brechu moch daear gyfrannu at y broses o helpu i atal y clefyd rhag lledu yn y boblogaeth o foch daear.
- Y tri mesur Cam 2 a gyflwynwyd ar gyfer Ardal TB Canolradd (Gogledd) yw:
 - Mesur 1: ehangu'r ddarpariaeth o Gynlluniau Gweithredu BUCHES Unigol pwrpasol ar gyfer achosion ailheintio o TB hyd at ac yn cynnwys y prawf 6 mis ar lefel Ardal TB Canolradd (Gogledd)
 - Mesur 2: cyflwyno prawf gama interfferon (y "prawf gama") fel Prawf Ar ôl Symud yn y ddwy uned ofodol sy'n cael eu heffeithio fwyaf (CL7 a CL8)
 - Mesur 3: defnyddio dehongliad caeth iawn mewn achosion o TB mewn buchesi yn CL7 a CL8 gydol y cyfnod pan fydd achosion o TB.

Ardal TB Canolradd (Canolbarth)

Disgrifiad o'r Ardal

Mae'r ardal hon yn mynd trwy'r Canolbarth ac yn cynnwys rhannau o Forgannwg, dwyrain Sir Gaerfyrddin, gogledd Ceredigion a gogledd Powys. Dyma ardal o ucheldir yn bennaf sy'n cynnwys buchesi eidion bach.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Lefel ganolig o glefyd sydd yn yr ardal hon o'i gymharu ag ardaloedd eraill, ac mae tua 2% o fuchesi o dan gyfyngiadau ar hyn o bryd oherwydd TB.
- Mae gan yr ardal hon y nifer isaf o achosion o TB ac eithrio'r Ardal TB Isel ac mae wedi bod yn sefydlog ar y cyfan ers nifer o flynyddoedd.
- BUCHESI eidion yw'r rhan fwyaf o fuchesi, fodd bynnag, mae tua 30-40% o'r achosion o TB ar unrhyw un adeg benodol yn digwydd mewn buchesi godro.

- Mae heterogenedd sylweddol mewn patrymau clefyd gofodol, gyda chlystyrau o'r clefyd mewn buchesi godro sy'n agosach at yr Ardal TB Uchel (Gorllewin) yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, ac ychydig iawn o achosion o TB sydd yna mewn gwartheg eidion yn Nwyrain Sir Gaerfyrddin.
- Mae ffigurau diweddaraf Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan o fis Medi 2021 hyd at fis Gorffennaf 2021 yn dangos bod 10 o garcasau moch daear wedi profi'n bositif gan arwain at gyfradd mynychder o 2.4%

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Ymddengys bod symud gwartheg i'r ardal yn ffactor risg uchel ar gyfer cyflwyno TB.
- Mae llawer o achosion newydd yn cael eu canfod drwy brofion cyffiniol sy'n awgrymu bod TB hefyd yn lledaenu'n lleol drwy gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol gyda gwartheg neu fywyd gwyllt cyfagos; yn enwedig yng Ngheredigion a Dwyrain Sir Gaerfyrddin.
- Mae gan yr ardal hon rai cynefinoedd addas sy'n caniatáu i foch daear a bywyd gwyllt ffynnu; er mai dim ond dau fochyn daear marw a oedd wedi profi'n bositif yn arolwg 2014-16, casglwyd saith arall yn y pedair blynedd ddilynol, y rhan fwyaf ohonynt yng Ngogledd Powys.

Beth rydym yn ei wneud

- Nid oes unrhyw fesurau ychwanegol yn cael eu cyflwyno'n benodol i fynd i'r afael â'r clefyd yn yr ardal hon.
- Rydym yn awyddus i sicrhau bod ansawdd profion OV yn uchel yn yr ardal hon ar ôl canfod nifer uwch na'r disgwyl o achosion mewn lladd-dai.
- Ceisio gwella prosesau cyfathrebu ar gyfer mesurau ymarferol y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn heintio buches a lleihau lefelau trosglwyddo'r clefyd o fewn buches.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae angen i ni ddiogelu'r ardal rhag i TB gael ei gyflwyno drwy symud gwartheg o ardaloedd clefyd uwch ac ymdrin â lefel y clefyd sydd eisoes yn bodoli yno. Er mwyn gwneud hyn mae angen newid y mesurau rheoli gwartheg i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r haint sy'n bodoli yno ar hyn o bryd.
- Mae bioddiogelwch ar ffermydd yn bwysig i ddiogelu rhag unrhyw ledaeniad lleol, a gellid ystyried y posibilrwydd o frechu moch daear i weld a allai hyn helpu i atal y clefyd rhag sefydlu ei hun yn y boblogaeth moch daear.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Os yw lefelau'r clefyd mewn unedau gofodol wedi'u targedu yn yr ardal hon yn parhau'n isel, rhagwelwn y gallwn ystyried eu trosglwyddo i'r Ardal TB Isel.

Ardal TB Uchel (Gorllewin)

Disgrifiad o'r Ardal

Mae'r ardal yn ffurfio triongl bras yn y De-orllewin ac yn cynnwys Sir Benfro a rhannau o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Abertawe. Ffermydd eidion bach yw mwyafrif y buchesi yn yr ardal. Fodd bynnag, mae yna fwy o wartheg godro gan fod yr ardal yn cynnwys llawer o fuchesi godro mawr.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Mae TB wedi bod yn bresennol mewn rhai rhannau o'r ardal ers i'r Ymgyrch Ddileu Genedlaethol ddechrau ym 1935.
- Mae ganddi un o'r cyfraddau uchaf o TB yng Nghymru gyda 9.6% o'r holl fuchesi o dan gyfyngiadau oherwydd TB ar ddiwedd Ch2 2021, er bod hyn wedi gostwng o 13.9% ar ddechrau 2009.
- Er mai Ardal TB Uchel (Gorllewin) sydd â'r mynychder mewn buchesi uchaf o'r pum Ardal TB, roedd nifer yr achosion ar ddiwedd Ch2 2021 ar ei lefel isaf erioed yn yr ardal hon mewn unrhyw gyfnod chwarter 2 ers sefydlu'r Rhaglen Ddileu.
- Cofnodwyd y nifer isaf o achosion newydd yn 2020 yn yr ardal hon ers 2001, ac mae wedi parhau i ostwng yn 2021. Cafwyd gostyngiad o 2% mewn achosion newydd yn y 12 mis diwethaf hyd at fis Mehefin 2021 o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol.
- Yr ardal hon sydd â'r achosion mwyaf difrifol o ran hyd y cyfyngiadau a nifer yr adweithyddion fesul achos
- Mae llawer o adweithyddion wedi bod yn Adweithyddion Amhendant yn y gorffennol.
- Mae ein harolwg o foch daear marw wedi cadarnhau presenoldeb TB mewn cyfran o'r poblogaethau moch daear lleol, ond nid yw mor uchel â rhannau eraill o Gymru.
- Nid yr Ardal Triniaeth Ddwys yw'r ardal waethaf yng Nghymru bellach ar gyfer achosion. Yn y dechrau, roedd 88 o achosion agored yn yr Ardal Triniaeth Ddwys mewn 325 o fuchesi (roedd canran y mynychder mewn buchesi yn 27.1%). Ar ddiwedd mis Mawrth 2019 roedd 38 o fuchesi dan gyfyngiadau mewn 269 o fuchesi byw (14.1%), sy'n ostyngiad o 48%.
- Y ffigurau cymharol ar gyfer yr ardal gyfeirio yw 142 o achosion agored mewn 1,250 o fuchesi (11.4%) ar ddechrau Ch1 2019, a 97 mewn tua 1,130 o fuchesi (8.6%) ar ddiwedd Ch1 2019, sy'n ostyngiad o 23%.
- Mae'r arwyddion hyn yn galonogol, a byddant yn ategu'r farn bod yr ystod o fesurau a gyflwynwyd yn yr Ardal Triniaeth Ddwys wedi cael effaith gadarnhaol ar duedd y clefyd dros amser.
- Er ei bod yn ymddangos bod y sefyllfa o safbwynt y clefyd yn gwella yn y rhan fwyaf o'r Ardal TB Uchel (Gorllewin), mae rhai ardaloedd llai yn Sir Benfro fel pe baent yn mynd yn groes i'r duedd hon.
- Mae ffigurau diweddaraf Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan o fis Medi 2014 hyd at fis Gorffennaf 2021 yn dangos bod 54 o garcasau moch daear wedi profi'n bositif gan arwain at gyfradd mynychder o 9.8%

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Mae yna lawer o ffermydd godro yn yr ardal ac mae'r buchesi yn llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae sawl nodwedd reoli a ddefnyddir yn benodol i ffermio buchesi godro mawr yn cynyddu'r risg o TB. Mae'r rhain yn cynnwys cyfnodau cadw cymharol hir gwartheg godro, yn ogystal â mwy o gysylltiadau cymdeithasol mewn ardaloedd mwy cyfyng o'i gymharu â buchesi sugno neu safleoedd pesgi eidion.
- Ymddengys bod lledaeniad lleol yn ffactor arwyddocaol yn yr ardal ac mae hyn yn cael ei ategu gan y ffaith bod tua thraean o'r achosion newydd wedi'u datgelu gan brofion goruchwyllo cyffiniol. Mae hyn yn awgrymu bod yna bwysau haint sylweddol o du allan y fuches.
- O ran gwartheg a symudwyd i ddaliadau yn yr ardal, roedd y mwyafrif yn dod o'r Ardal TB Uchel (Gorllewin).
- Mae llawer o achosion ailheintio sy'n awgrymu naill ai cyfradd ail-heintio uchel neu haint sy'n parhau yn y fuches hyd yn oed ar ôl datgan bod y fuches yn fuches heb TB swyddogol.

Beth sydd angen ei wneud?

- Mae gan yr ardal hon fwy o anifeiliaid sy'n ymateb i dwbercwlin adar a buchol nag unrhyw ardal arall. Ein nod yw deall a yw cyd-heintiau â mycobacteria eraill, megis yr organeb sy'n gyfrifol am glefyd Johne, yn cael effaith ar ddiagnosteg profion er mwyn deall yn well sut y gallwn oresgyn hyn.
- Ceisio gwella prosesau cyfathrebu ar gyfer mesurau ymarferol y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn heintio buches a lleihau lefelau trosglwyddo'r clefyd o fewn buches.

Mae angen mesurau rheoli i fynd i'r afael â'r ffyrdd mae'r clefyd yn lledaenu o fewn a rhwng buchesi o'r ffynonellau haint hysbys:

- Lleihau'r perygl o haint yn lledaenu drwy symud gwartheg ac o foch daear heintiedig;
- Dod o hyd i wartheg heintiedig cyn gynted â phosibl;
- Cael gwared ar y clefyd i'w atal rhag heintio eraill yn y fuches ac mewn buchesi eraill.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Y nod tymor byr ar gyfer yr ardal hon yw parhau i leihau nifer yr achosion a difrifoldeb pob achos (mesurir yn ôl hyd y cyfyngiadau).
- Lleihau'r gyfradd ailheintio.
- Nod tymor byr arall ar gyfer yr ardal yw ymdrin â nifer yr achosion 'cronig' mewn buchesi. Mae'r achosion hyn yn cynnwys y rhai sy'n barhaus o ran hyd, ond hefyd yn cynnwys achosion o ailheintio.
- Yn yr hirdymor, os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Canolradd, ar y sail bod lefel y clefyd yn leihau i lefel sy'n cymharu â'r Ardaloedd TB Canolradd cyfredol.

Ardal TB Uchel (Dwyrain)

Disgrifiad o'r Ardal

Mae'r ardal yn ymestyn ar hyd y ffin, o ogledd Powys i Went. Mae mwyafrif y symudiadau gwartheg yn lleol, o fewn yr ardal neu o siroedd cyfagos yn Lloegr ble mae TB yn endemig hefyd. Mae gan yr ardal gyfran fawr o fuchesi sugno eidion.

Sefyllfa gyfredol y clefyd

- Roedd 5.2% o fuchesi o dan gyfyngiadau TB ar ddiwedd Ch2 2021 o'i gymharu â 9.7% ar ddechrau 2009.
- Cafwyd y nifer blynyddol isaf o achosion TB newydd yn yr ardal yn 2020 ers 2001.
- Mae'r duedd hon wedi parhau yn 2021, a bu gostyngiad o 9% yn nifer yr achosion newydd dros y 12 mis diwethaf hyd at fis Mehefin 2021.
- Mae gan fwyafrif yr achosion newydd ychydig o adweithyddion ac maent yn para am lai na blwyddyn, fwy na thebyg oherwydd bod yr ardal yn ardal eidion yn bennaf. Fodd bynnag, mae yna ychydig o fuchesi, buchesi godro mawr yn bennaf, sydd ag achosion difrifol sy'n para hyd at bum mlynedd gyda rhai yn para dros 10 mlynedd.
- Roedd bron i chwarter yr achosion caeedig yn 2018 wedi cael achos arall o fewn dwy flynedd, sy'n is na'r ddwy flynedd flaenorol (2016 a 2017) ac yn is na'r Ardal TB Uchel (Gorllewin).
- Mae ffigurau diweddaraf Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan o fis Medi 2014 hyd at fis Gorffennaf 2021 yn dangos bod 71 o garcasau moch daear wedi profi'n bositif gan arwain at gyfradd mynychder o 18.6%

Beth sy'n ysgogi'r clefyd?

- Mae'n debygol bod llawer o symudiadau lleol yn arwain at symud gwartheg heintiedig sydd heb eu canfod.
- Mae achosion ailheintio yn uchel yn yr ardal a allai fod yn digwydd yn sgil ailgyflwyno oherwydd ail-heintio neu am fod yr haint yn parhau yn y fuches ar ôl codi'r cyfyngiadau.
- Nodwyd tua 45% o'r achosion o TB a ganfuwyd yn ystod 2020 drwy brofion cyffiniol sy'n awgrymu bod lledaeniad lleol yn digwydd drwy gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol.
- Mae Arolwg o Foch Daear Marw Cymru Gyfan wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol mewn cyfran uwch o'r poblogaethau moch daear lleol nag mewn unrhyw Ardal TB arall yng Nghymru.
- Mae yna ryw faint o dystiolaeth i ddangos bod lefel isel o'r haint yn bresennol mewn bywyd gwyllt arall fel ceirw a'r baedd gwyllt yn nwyrain Sir Fynwy.

Beth sydd angen ei wneud?

- Deall lledaeniad lleol y clefyd yn well yn yr ardal hon.
- Ceisio gwella prosesau cyfathrebu ar gyfer mesurau ymarferol y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd y clefyd yn heintio buches a lleihau lefelau trosglwyddo'r clefyd o fewn buches.

Mae angen mesurau rheoli i fynd i'r afael â'r ffyrdd mae'r clefyd yn lledaenu o fewn a rhwng buchesi o'r ffynonellau haint hysbys:

- Dod o hyd i wartheg heintiedig cyn gynted â phosibl.
- Cael gwared ar y clefyd er mwyn ei atal rhag heintio eraill yn y fuches ac mewn buchesi eraill.
- Lleihau'r perygl o haint yn lledaenu drwy symud gwartheg a gan foch daear heintiedig.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Dros y tymor byr-canolig, symud unedau gofodol penodol i'r Ardal TB Canolradd, ar yr amod eu bod yn parhau i ddangos lefelau clefyd sy'n cyfateb i'r lefelau sydd eu hangen ar gyfer newid o'r fath.
- Y nod tymor byr ar gyfer yr ardal hon yw parhau i leihau nifer yr achosion a difrifoldeb pob achos (mesurir yn ôl hyd y cyfyngiadau).
- Yn yr hirdymor, os yw sefyllfa'r clefyd yn yr ardal hon yn gwella, gallwn ystyried y bydd yn datblygu i fod yn Ardal TB Canolradd, ar y sail bod lefel y clefyd yn lleihau i lefel sy'n gymharol â'r Ardaloedd TB Canolradd cyfredol.

4. Targedau Dileu

Cyhoeddwyd targedau dileu TB ar gyfer Cymru a thargedau interim ar gyfer pob rhanbarth TB ym mis Rhagfyr 2017. Os yw'r targedau hyn yn cael eu cyflawni, bydd Cymru yn dod yn rhydd o TB yn swyddogol rhwng 2036 a 2041.

Pennwyd targedau interim, sy'n cwmpasu cyfnodau 6 blynedd, ar gyfer pob un o'r Ardaloedd TB. Mae'r targedau hyn yn pennu gostyngiadau cyffredinol yn y mynychder mewn buchesi yn ogystal â throsglwyddo Unedau Gofodol o ardaloedd mynychder uwch i ardaloedd mynychder is.

Mae'r targedau rhanbarthol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 31 Rhagfyr 2017 a 31 Rhagfyr 2023. Ar ddiwedd pob cyfnod 6 blynedd byddwn yn asesu'r cynnydd hyd yma ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer y cyfnod canlynol. Bydd Unedau Gofodol yn trosglwyddo o ardaloedd mynychder uwch i ardaloedd mynychder is os yw sefyllfa'r clefyd yn well na'r cyfnod blaenorol, ac i'r gwrthwyneb os yw sefyllfa'r clefyd yn dirywio. Fel rhan o'r broses adolygu bob 6 blynedd, gallai fod yn briodol adolygu ac, os oes angen, addasu'r targed dileu cenedlaethol ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf.

Bu cynnydd addawol yn ystod hanner cyntaf y targed interim 6 blynedd gyntaf. Cafwyd gostyngiad o 18% yn nifer yr achosion yn yr ardaloedd mynychder uchel, ac roedd dau o'r tri tharged uned ofodol a osodwyd yn 2017 yn dangos bod sefyllfa'r clefyd yn gyson â dynodiad risg is dros y tair blynedd gyntaf.

Bu'r cynnydd yn arafach yn yr ardaloedd mynychder canolradd yn ystod tair blynedd gyntaf y targed interim, a bu gostyngiad o 4% yn nifer yr achosion.

Rydym yn parhau i adolygu'r data bob blwyddyn wrth i ni nesáu at ail hanner y garreg filltir gyntaf sy'n dod i ben yn 2023. Ni fyddwn yn cyrraedd ein targedau heb gydweithrediad ac ymroddiad pawb sy'n rhan o'n Rhaglen i Ddileu TB. Mae angen i bob un ohonom gydweithio er mwyn gwneud cynnydd.

5. Profion TB

Cefndir a rhesymau dros newid

Mae profion TB Cyn Symud (PrMT) ac Ar ôl Symud (PoMT) yn cael eu defnyddio i helpu i leihau'r risg o ledaenu TB drwy symud gwartheg. Mae lefel y symudiadau o Gymru ac o'r Rhanbarthau TB yng Nghymru yn sylweddol bob blwyddyn (gweler Tabl 1)

Tabl 2: Nifer y gwartheg sy'n symud i ddaliadau yng Nghymru ac eithrio anifeiliaid sy'n iau na 42 diwrnod oed, 2016-2020

	2016	2017	2018	2019	2020
Ardal TB Uchel (Dwyrain)	56,968	58,615	65,486	63,657	60,364
Ardal TB Uchel (Gorllewin)	69,649	78,575	75,948	72,404	72,329
Ardal TB Canolradd (Canolbarth)	36,420	41,394	44,318	39,996	41,136
Ardal TB Canolradd (Gogledd)	22,523	23,320	24,938	20,285	20,114
Ardal TB Isel	77,004	84,084	99,042	93,569	97,169
Cymru	262,564	285,988	309,732	289,911	291,112

Ffynhonnell: Data Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) a ddarparwyd gan APHA

Symud gwartheg â haint heb ei ganfod yw'r ffordd fwyaf tebygol o ledaenu'r clefyd i ardaloedd newydd. Yn benodol, mae symud gwartheg o ardaloedd lefelau mynychder uchel o TB mewn gwartheg yng Nghymru, ac o ardaloedd o Brydain yn ehangach, yn peri risg sylweddol o gyflwyno'r haint o un ardal i'r llall gan gynnwys ardaloedd mynychder isel, neu is.

Er nad yw'n bosibl dileu'n llawn y risg y bydd TB yn lledaenu drwy haint heb ei ganfod, bydd y broses o sicrhau bod gwartheg sy'n cael eu symud i fuches yn cael prawf Cyn Symud a/neu Ar ôl Symud yn lleihau'r tebygolrwydd o gyflwyno'r clefyd hwn i ardaloedd a buchesi newydd.

Mae profion symud yn lleihau'r risg o ledaenu TB rhwng buchesi ac, ar hyn o bryd, dim ond y prawf croen sy'n cael ei ddehongli'n safonol y gellir ei ddefnyddio fel prawf Cyn Symud neu Ar ôl Symud. Perchennog y fuches sy'n trefnu ac yn talu am y profion hyn mewn ymgynghoriad â'i filfeddyg preifat. Fodd bynnag, gall profion goruchwyllo TB arferol, a ariennir gan y Llywodraeth, gyfrif fel prawf Cyn Symud hefyd cyn belled â bod y symudiad yn digwydd o fewn 60 diwrnod i ddiwrnod 1 y prawf.

Mae'n rhaid cynnal prawf Ar ôl Symud rhwng 60 a 120 diwrnod ar ôl symud i'r safle. Yng Nghymru, ni ddylid symud gwartheg sydd angen prawf Ar ôl Symud o'u lleoliad newydd hyd nes bod y prawf wedi'i gwblhau 60-120 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd, oni bai bod y symudiad yn bodloni un o'r eithriadau.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu nifer o eithriadau sy'n galluogi symudiadau heb prawf Cyn Symud/Ar ôl Symud e.e. symud gwartheg i'w lladd neu eu symud i gael triniaeth filfeddygol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod profion Cyn Symud ac Ar ôl Symud yn fesurau hanfodol i leihau risg, a'u bod yn gwneud cyfraniad ystyrlon at ddileu'r clefyd yng Nghymru. Mae ehangu'r gofynion i gynyddu diogelwch buchesi ac ardaloedd yn angenrheidiol.

Meysydd newid arfaethedig:

A. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr dalu am Brawf Cyn Symud ar gyfer buchesi yn yr Ardal TB Isel.

Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi nad oes angen Prawf Cyn Symud ar gyfer symudiadau gwartheg o fuchesi sydd wedi'u lleoli yn yr Ardal TB Isel ond bod angen Prawf Ar ôl Symud ar gyfer symudiadau i'r Ardal TB Isel o ardaloedd TB uwch.

Cyflwynwyd y mesur hwn yn 2017 ar sail y gred ar y pryd bod y rhan fwyaf o achosion o TB yn deillio o haint heb ei ganfod trwy symudiadau gwartheg o ardaloedd TB risg uwch. Fodd bynnag, mae dadansoddiad epidemiolegol diweddar wedi nodi bod symudiadau lleol oddi mewn i'r Ardal TB Isel wedi cyfrannu at ledaeniad y clefyd yn ardaloedd Sir Ddinbych a Dyffryn Conwy, ac y byddai ailgyflwyno Prawf Cyn Symud yn helpu i leihau'r lledaeniad hwn.

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Eglurwch eich rhesymau.
2. Mae angen Prawf Cyn Symud clir ar wartheg sy'n mynd i mewn i'r Ardal TB Isel o ardaloedd TB uwch. A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i wartheg sy'n symud i mewn i'r Ardal TB Isel o ardal achosion TB uwch gael Prawf Ar ôl Symud wrth gyrraedd? Eglurwch eich rhesymau.

B. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr dalu am Brawf Ar ôl Symud ar gyfer holl symudiadau gwartheg i ddaliadau yn yr Ardaloedd TB Canolradd o Ardaloedd TB Uchel, yr Ardal Risg Uchel a Gogledd Iwerddon.

Wrth i ni geisio diogelu statws clefyd Ardaloedd TB Canolradd Cymru a sicrhau eu bod yn bodloni'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu hintegreiddio yn y pen draw i'r Ardal TB Isel, cynigir y dylai anifeiliaid sy'n cael eu symud i'r ardaloedd hyn o ardaloedd TB uwch gael Prawf Ar ôl Symud. Mae'n bosibl na fydd Prawf Cyn Symud yn y fuches tarddiad yn nodi anifail yn ystod cyfnod cynnar yr haint, ac nid yw'n gallu nodi gwartheg sy'n cael eu heintio ar ôl cynnal y prawf. Mae gofyniad eisoes i fuchesi yn yr Ardaloedd TB Canolradd gael Prawf Cyn Symud. Nod y newid hwn yw:

- Canfod y clefyd yn gynharach mewn buchesi wedi'u prynu sy'n cynnwys mwy o risg; a
- Lleihau achosion o brynu gwartheg o ardaloedd achosion o TB uwch.

Mae'r Ardal TB Canolradd (Gogledd) wedi cael lefel uwch o achosion o'r clefyd (nifer yr achosion o TB agored ar unrhyw adeg). Cynhara'n byd y gellir nodi'r clefyd mewn buches, mwya'n byd y tebygolrwydd y gellir dychwelyd yn gynharach i statws di-glefyd.

Cwestiynau

3. A ydych yn cytuno y dylai gwartheg sy'n symud i'r Ardaloedd TB Canolradd o ardaloedd TB uwch gael Prawf Ar ôl Symud? Eglurwch eich rhesymau.

C. Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno Prawf Ar ôl Symud y telir amdano gan y ffermwr ar gyfer symudiadau gwartheg o ardal â phroblemau TB, neu os oes buches risg uchel a nodwyd wedi'i gwasgaru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno Prawf Ar ôl Symud dros dro ar gyfer gwartheg sy'n symud o ardaloedd â phroblemau TB sy'n dod i'r amlwg. Byddai polisi o'r fath yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i gynnal Prawf Ar ôl Symud ar gyfer gwartheg sy'n symud o ardal â phroblemau TB hysbys neu o fuches risg uchel, cyn i'r gwartheg gymysgu â gweddill y fuches. Gallai hyn gynnwys ardaloedd â phroblemau TB y tu allan i Gymru, fel yr ardaloedd a ddaeth i'r amlwg yn ardal Shap yn Cumbria, a symudiad anifeiliaid ar ôl gwerthu buches risg uchel ar wasgar, y nodwyd ei bod wedi hau'r clefyd mewn nifer o ardaloedd gwahanol o Brydain. Cynigir na fyddai Prawf Ar ôl Symud yn cael ei ddefnyddio'n aml ac y byddai'n bodoli dros dro.

Cwestiynau

4. A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno Prawf Ar ôl Symud dros dro ar gyfer gwartheg sy'n tarddu o ardal â phroblemau TB, neu o fuchesi risg uchel? Eglurwch eich rhesymau.
5. Ble fyddai'r polisi hwn yn cael yr effaith fwyaf yn eich barn chi? (Er enghraifft Ardaloedd TB Uchel, Ardaloedd TB Canolradd neu Ardaloedd TB Isel).

D. Peidio â chaniatáu prawf clirio buches fel Prawf Cyn Symud fel rydym yn ei wneud ar gyfer achosion mynych o TB mewn buchesi.

Mae'r prawf TB clirio yn brawf a ddefnyddir ar ddiwedd achosion o TB i benderfynu a oes modd codi cyfyngiadau TB ar fuches. Ar hyn o bryd, dim ond mewn amgylchiadau lle mae buches wedi bod o dan gyfyngiadau am 18 mis neu fwy (h.y. achosion mynych o TB) y mae'r gofyniad am brawf ychwanegol cyn symud anifeiliaid, 42 diwrnod a hŷn, yn berthnasol. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i geidwad buches ag achosion mynych aros 60 diwrnod arall ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi, a chwblhau Prawf Cyn Symud cyn gallu symud neu werthu'r anifeiliaid hynny.

Mae ymestyn y cyfnod cyn y gellir symud yr anifeiliaid hyn a nodi bod prawf clir ychwanegol yn ofynnol yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi haint amhenodol yn y fuches.

Felly, cynigir bod y polisi'n cael ei ddiwygio fel na ellir defnyddio prawf clirio achosion o TB fel Prawf Cyn Symud. Byddai angen prawf clir arall ar gyfer anifeiliaid 42 diwrnod oed a hŷn cyn caniatáu symud anifeiliaid o unrhyw safle lle'r oedd achosion o TB at ddibenion Prawf Cyn Symud.

Cwestiynau

6. A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Eglurwch eich rhesymau.
7. Ble fyddai'r polisi hwn yn cael yr effaith fwyaf yn eich barn chi? (Er enghraifft Ardaloedd TB Uchel, Ardaloedd TB Canolradd neu Ardaloedd TB Isel).

E. Pa ddewisiadau amgen sydd ar gael ar gyfer y prawf/profion y gellir ei ddefnyddio/eu defnyddio ar gyfer Prawf Cyn Symud?

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer sut rydym yn ymgymryd â Phrofion Cyn Symud a Phrofion Ar ôl Symud, gan gynnwys pa brawf sy'n cael ei ddefnyddio.

Mae nifer o opsiynau ar gael, gan gynnwys parhau â'r sefyllfa bresennol, ond hefyd defnyddio'r prawf croen a'i ddehongli'n wahanol, y prawf gama a/neu'r prawf IDEXX fel Prawf Cyn Symud. Mae'n ddigon posibl y bydd newid y profion yn datgelu canlyniadau amrywiol, felly byddai angen ystyried hynny wrth wneud unrhyw newidiadau - a byddai angen i geidwaid anifeiliaid dderbyn y gallai hynny ddigwydd.

Mae angen sensitifrwydd 100% ar gyfer prawf perffaith, neu gyfuniad perffaith o brofion, h.y. mae'r prawf yn arwain at ganlyniad positif ar gyfer pob anifail heintiedig ac mae penodolrwydd 100% h.y. nodir canlyniad negyddol ar gyfer pob anifail heb ei heintio (dim "canlyniadau positif ffug"). Y broblem yw nad oes unrhyw brawf perffaith, neu gyfuniad o brofion, yn bodoli.

Os nad yw prawf, neu gyfuniad o brofion, yn ddigon sensitif, bydd yn methu cofnodi llawer o anifeiliaid heintiedig, ac os nad yw'n ddigon penodol, bydd yn arwain at ormod o ganlyniadau positif ffug. Mae yna gyfaddawd rhwng sensitifrwydd a phenodolrwydd, wrth i un gynyddu, mae'r llall yn lleihau.

Mae dadansoddiad epidemiolegol yn nodi bod anifeiliaid sydd wedi cael prawf croen clir ar sail dehongliad safonol yn arwain at achosion newydd o TB mewn buchesi lle nad oedd achosion o TB o'r blaen.

Nid yw hyn yn syndod, oherwydd bod gan ddehongliad safonol o'r prawf croen sensitifrwydd is o 81% (yn amrywio o 50-90%), yn wahanol i'w benodolrwydd uchel iawn o 99.98% (1 ym mhob 5000 prawf yn esgor ar ganlyniad positif ffug). Mae

sensitifrwydd o 80% yn golygu nad yw 2 o bob 10 anifail heintiedig yn cael canlyniad cadarnhaol gan y prawf.

Mae yna achos cryf o blaid cynyddu sensitifrwydd y Prawf Cyn Symud, er y byddai hynny'n lleihau penodolrwydd. Gellir defnyddio trefn brofi a fydd yn gallu cyflawni hyn, ond byddai ganddi oblygiadau.

Cwestiynau

8. A ydych yn cytuno â'r datganiad *'dylai'r prawf a ddefnyddir fel Prawf Cyn Symud fod yn fwy sensitif ac felly'n fwy tebygol o nodi gwartheg sydd wedi'u heintio, ond gan gydnabod y byddai hyn ar draul nodi mwy o wartheg sy'n cael canlyniad positif ffug'*? Esboniwch eich rhesymau.
9. Os yw profion gwaed (gama neu IDEXX) yn cael eu defnyddio fel Prawf Cyn Symud, ydych chi'n cydnabod y bydd cost ychwanegol i'r broses brofi o bosibl, na allai'r Llywodraeth ei thalu? Eglurwch eich rhesymau.

F. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod prawf 1 (diwrnod y pigiad a elwir yn TT1) a diwrnod prawf 2 (diwrnod darllen y prawf a elwir yn TT2) a rhwng profion gwaed a derbyn canlyniadau.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio unioni sefyllfa lle caniateir i anifeiliaid symud oddi ar ddaliad rhwng adeg chwistrellu twbercwl (TT1) a darllen y prawf hwnnw (TT2) a hefyd rhwng profion gwaed a derbyn canlyniadau. Yn amlwg, gall symudiadau o'r fath arwain at gymhlethdodau difrifol wrth reoli'r gyfundrefn oruchwyllo, gan arwain o bosibl at anifeiliaid sydd wedi'u heintio yn symud rhwng daliadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y canlynol:

Mewn buches anghyfyngedig, ni chaniateir i anifail symud rhwng TT1 a TT2 o'r prawf croen, neu rhwng prawf gwaed a derbyn y canlyniadau, ac eithrio:

- i. Unrhyw anifail sydd wedi cael prawf clir ac sy'n cael ei symud yn uniongyrchol i gael ei ladd, neu anifeiliaid a gesglir i'w lladd o dan drwydded;
- ii. Unrhyw anifail sy'n cael ei drwyddedu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Cwestiwn

10. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig? Eglurwch eich rhesymau.

G. Caniatâd i gasglu sampl at ddibenion profion TB neu gynnal prawf ar sampl

Mae Gorchymyn TB (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi:

Ni chaiff unrhyw berson brofi anifail buchol ar gyfer twbercwlosis ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru, a rhaid i berson y rhoddir caniatâd o'r fath iddo adrodd y canlyniadau ar unwaith wrth Weinidogion Cymru.

Cynigir y dylid ehangu'r gwaharddiadau yng Ngorchymyn TB (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) i gynnwys samplu a phrofi samplau sydd wedi'u cymryd. Diben hyn yw sicrhau bod cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am awdurdod i gasglu sampl, cynnal prawf, cynnal prawf ar unrhyw sampl a sicrhau bod canlyniadau profion o'r fath yn cael eu hadrodd ar unwaith. Ar hyn o bryd, mae perygl y gallai samplau gael eu cymryd a/neu eu profi ar gyfer TB heb wybodaeth Llywodraeth Cymru gan arwain at anawsterau yn derbyn y canlyniadau ac yn gweithredu arnynt. Byddai hyn yn peryglu'r broses o reoli a dileu'r clefyd.

Cwestiwn

11. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn? Eglurwch eich rhesymau.

6. Prynu Gwybodus

Cefndir a rhesymau dros newid

Ledled Cymru, gall gwartheg sy'n cael eu prynu fod yn ffynhonnell haint newydd. Os ydym am ddileu TB, mae angen i geidwaid gymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli'r risg hon. Er mwyn helpu gyda hyn rydym yn hyrwyddo "Prynu Gwybodus" ymysg ceidwaid, sy'n ceisio hybu'r broses o ddarparu gwybodaeth am hanes profion TB anifail a'r fuches y daw ohoni yn y man gwerthu. Drwy ystyried y wybodaeth hon gall ceidwaid wneud asesiad mwy cywir o lefel risg TB y gwartheg a brynant. Er enghraifft, yn ystod 2019, roedd buchesi â hanes o TB yn y tair blynedd flaenorol tua phedair gwaith yn fwy tebygol o gael achos newydd na buchesi nad oedd ganddynt hanes o'r clefyd, ac mae prynu gwartheg o'r buchesi hyn yn fwy o risg na phrynu gwartheg o fuches nad ydynt wedi cael TB o gwbl.

Er gwaethaf y rheolaethau sydd gennym ar waith, mae'r dystiolaeth epidemiolegol yn awgrymu bod gwartheg sy'n cael eu prynu yn parhau i fod yn un o brif ffynonellau haint newydd. Mewn rhai ardaloedd, gwyddom fod y risg sy'n deillio o symudiadau gwartheg yn gallu bod yn sylweddol. Trwy astudio Ffurflenni Adrodd am y Clefyd wedi'u cwblhau gan filfeddyg yr achos, rydym wedi canfod bod modd priodoli 80% o achosion wedi'u cadarnhau yn yr Ardal TB Isel i symudiadau gwartheg yn bennaf. Hyd yn oed yn yr Ardaloedd TB Uchel, mae tua thraean o'r achosion sydd wedi'u cadarnhau yn deillio'n bennaf o symudiadau gwartheg. Felly, mae'n hanfodol bod ffermwyr yn ystyried o ble mae gwartheg yn dod a'u hanes TB.

Yn ystod 2020, roedd nifer fawr o wartheg risg uchel wedi symud i ddaliadau yng Nghymru, fel yr amlinellir isod:

- Roedd 14% o wartheg (neu 42,000 o wartheg) a symudwyd i ddaliadau yn yr Ardaloedd TB Isel a Chanolradd yn dod o ddaliadau mewn ardal mynychder uwch;
- Roedd 38% o wartheg a symudwyd i ddaliadau yn Ardaloedd TB Uchel Cymru yn dod o ddaliadau mewn ardaloedd risg uchel tebyg yng Nghymru a Lloegr;
- Roedd 30% o wartheg a symudwyd i ddaliadau yng Nghymru yn dod o fuchesi risg uchel;
- Roedd 18% o wartheg a symudwyd i ddaliadau yng Nghymru wedi'u prynu o ddaliadau eraill yng Nghymru o fuchesi lle'r oedd achos wedi'i gau o fewn dwy flynedd.

Diffinnir buches risg uchel uchod fel buches lle mae achos o TB wedi'i gau:

- O fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, neu
- O fewn y tair i bum mlynedd diwethaf, ond bod yr anifail wedi'i brynu o fuchesi lle'r oedd achos o TB wedi'i gau o fewn dwy flynedd.

Ers 2016, rydym wedi agor cynllun Grant ar gyfer marchnadoedd ar ddau achlysur, gan ddarparu cyllid i farchnadoedd gwartheg yng Nghymru uwchraddio eu cyfleusterau er mwyn arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu yn wirfoddol. O ganlyniad i'r cylchoedd ariannu hyn, mae 11 o'r 25 o farchnadoedd cymwys wedi uwchraddio eu cyfleusterau.

Yn 2017, parhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd i hyrwyddo prynu gwybodus ar sail wirfoddol, ond cyhoeddodd nod mwy hirdymor o ddatblygu trefn Prynu Gwybodus orfodol. Cam cyntaf y broses hon fyddai sicrhau bod gwerthwyr gwartheg yn datgelu hanes clefyd y fuchesi yn y man gwerthu, a chynnwys dyletswydd i sefydliadau gwerthu arddangos y wybodaeth.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd systemau adrodd a chofrestru symudiadau ar wahân ar gyfer gwartheg, defaid a moch. Bydd EIDCymru yn system olrhain amlrywogaethau effeithiol a fydd yn helpu i gyfyngu ar effaith achosion o glefydau, yn gwella data ac yn parhau i roi sicrwydd i ddefnyddwyr ynglŷn â tharddiad eu bwyd.

Meysydd newid arfaethedig:

A. Mae ychwanegu map newydd at ibTB yn dangos nifer y blynyddoedd y mae buchesi gwartheg anghyfyngedig wedi bod yn fuchesi sydd â statws heb TB swyddogol (OTF).

Map rhyngweithiol am ddim yw'r ibTB (<https://ibtb.co.uk/>) sy'n dangos lleoliadau'r holl achosion o TB mewn buchesi yng Nghymru a Lloegr dros y 10 mlynedd diwethaf. Gall ceidwaid gwartheg a milfeddygon ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o raddfa'r bygythiad o TB mewn ardal benodol, gan eu galluogi i gymryd camau cymesur i ddiogelu buchesi gwartheg. I ryw raddau, gellir defnyddio'r map hefyd i gefnogi penderfyniadau prynu gwartheg cyfrifol.

Er mwyn helpu ceidwaid i reoli'r broses o gyflwyno gwartheg newydd i'w buchesi yn ddiogel, rydym yn ystyried y posibilrwydd o rannu, drwy ibTB, wybodaeth gyfyngedig am hanes TB pob buches yng Nghymru. Ar hyn o bryd, dim ond lleoliad buchesi sydd o dan gyfyngiadau oherwydd achos o TB, neu fuchesi sydd wedi cael achos yn ystod y 10 mlynedd flaenorol y mae'r ibTB ond yn ei ddangos.

Mae nifer y blynyddoedd di-dor y mae buches wedi bod â statws heb TB swyddogol yn ddangosydd o'r tebygolrwydd y bydd achos newydd yn codi yn y fuches. Ucha'n byd y nifer, isa'n byd y tebygolrwydd. Rydym yn cynnig archwilio'r posibilrwydd o ychwanegu map newydd at ibTB sy'n dangos nifer y blynyddoedd y mae buchesi gwartheg anghyfyngedig wedi bod yn fuches sydd â statws heb TB swyddogol.

B. Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu

Oherwydd natur wirfoddol prynu gwybodus hyd yma, mae wedi bod yn amhosibl sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am TB yn cael ei harddangos, ac yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r sefyllfa bresennol yn gwireddu gweledigaeth wreiddiol y fenter - sy'n destun siom.

I gyd-fynd â gwella map rhyngweithiol ibTB i gynorthwyo'r broses o symud gwartheg mewn ffordd gyfrifol, opsiwn arall fyddai ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn darparu gwybodaeth am TB a bod gweithredwyr y farchnad yn arddangos y wybodaeth yn glir ar sgrin electronig. O safbwynt gwerthu gwartheg yn breifat, rhagwelir y bydd gwybodaeth am TB yn cael ei darparu i'r prynwr cyn gwerthu'r gwartheg.

Er mwyn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd y gwartheg y maent am eu prynu, gallai'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu gynnwys:

- Os yw'r fuches wedi cael achosion o TB yn y gorffennol, y dyddiad y cafodd y fuches statws heb TB swyddogol, nifer y blynyddoedd ers i'r achosion diwethaf o TB ddod i ben, neu gyfanswm yr achosion o TB.
- Dyddiad prawf cyn symud diweddaraf yr anifail (os yw'n berthnasol).
- Dyddiad prawf goruchwyllo rheolaidd diweddaraf y fuches.

- Achrediad Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS) neu statws achrediad/sicrwydd perthnasol arall (os yw'n berthnasol).

Cwestiynau

12. A ydych yn cytuno â'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu? Eglurwch eich rhesymau.
13. Yn y dyfodol, a ydych yn credu y dylai fod goblygiadau ar gyfer ceidwaid gwartheg sy'n anwybyddu gwybodaeth am TB, ac yn prynu anifeiliaid waeth beth fo'r risgiau a amlygwyd? Eglurwch eich rhesymau. Beth ddylai natur y goblygiadau fod yn eich barn chi?

7. Talu am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB

Cefndir a rhesymau dros newid

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r drefn bresennol ar gyfer gwneud taliadau TB (iawndal TB) i ffermwyr yng Nghymru. Y prif reswm am yr adolygiad hwn oedd y ffaith nad oedd cost y system bresennol yn gynaliadwy ar sail y gyllideb a oedd ar gael.

Aeth Bwrdd y Rhaglen Dileu TB ati i adolygu ystod eang o opsiynau ar gyfer taliadau TB yn ystod 2019 a 2020 fel rhan o'r adolygiad. Argymhellodd Bwrdd y Rhaglen y dylid ystyried 3 o'r 9 opsiwn ymhellach, a chynnal ymgynghoriad hefyd. Bu'n rhaid gohirio'r adolygiad wedyn oherwydd y pandemig Covid-19.

Mae'r rhestr lawn o opsiynau ac arbedion posibl ar gyfer pob opsiwn a ystyriwyd gan Fwrdd y Rhaglen i'w gweld yn Atodiad 1 i'r ymgynghoriad hwn. Mae arbedion posibl wedi'u diweddarau ar sail y wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael. Mae'r rhesymau pam na chafodd 6 o'r 9 opsiwn eu cyflwyno i'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- Arbedion costau posibl cyfyngedig.
- Wedi methu ystyried arferion ac ymddygiad ffermio da.
- Anawsterau gweithredu ymarferol.
- Goblygiadau andwyol ar gyfer rhai busnesau/sectorau ffermio.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn dymuno ailddechrau'r adolygiad o'r system Taliadau TB a gofyn am safbwyntiau ar y 3 opsiwn a gafodd eu hargymell gan Fwrdd y Rhaglen.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae Llywodraeth Cymru yn talu arian i berchnogion anifeiliaid am wartheg a laddwyd oherwydd TB, fel y nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) (*Y Gorchymyn TB*). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi ei bod yn ofynnol sicrhau bod y taliad yn seiliedig ar werth pob anifail unigol ar y farchnad. Er mwyn penderfynu gwerth anifail ar y farchnad, mae'n rhaid i brisiwr dan gontract

benderfynu, drwy brisio'r anifail perthnasol ar y fferm, pris gwerthu rhesymol posibl yr anifail pe bai ar werth ar y farchnad agored ac nad oedd yn cael ei effeithio gan TB nac yn dod i gysylltiad â TB.

Mae Llywodraeth Cymru yn contractio gwasanaethau priswyr o dan y Fframwaith Gwasanaethau Prisio TB i wneud gwaith prisio ar ffermydd. Gan fod taliadau'n cael eu gwneud ar gyfer anifeiliaid y mae'n rhaid eu lladd oherwydd TB, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros faint o arian sy'n cael ei dalu mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol.

Ffactorau sy'n cymell ac yn atal

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn lleihau Taliadau TB i geidwaid sy'n torri'r Gorchymyn TB yn yr amgylchiadau canlynol:

Symudiad anghyfreithlon (heb drwydded)	Gostyngiad o 95%
Symud o dan drwydded (i ddaliad cyfyngedig)	Gostyngiad o 50%
Oedi wrth gael gwared ag anifeiliaid	Gostyngiad o 25% (1 i 10 diwrnod) Gostyngiad o 50% (10 i 20 diwrnod) ac ati
Dim pasbort	Taliad £1
Torri'r Gorchymyn TB	Gostyngiad o hyd at 95%
Peidio â chydymffurfio â gorchymyn ynysu	Gostyngiad o 50%
Torri amodau Hysbysiad Gofynion Milfeddygol a Gofynion Bioddiogelwch	Gostyngiad o 50% ar gyfer torri'r amodau am y tro cyntaf, gostyngiad o 95% am eu torri eto wedyn

O safbwynt annog pobl i beidio â thorri'r rheolau, mae'r broses bresennol ond yn rhwystro diffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth pan fydd yr anifeiliaid perthnasol yn cael eu lladd oherwydd TB, a bod y taliad TB yn cael ei leihau.

O safbwynt darparu cymhellion i berchnogion gwartheg reoli achosion o TB mewn ffordd ragweithiol ar eu fferm, nid oes llawer o gymhelliant ariannol amlwg ar hyn o bryd ar wahân i annog pobl i beidio â symud anifeiliaid i'r daliad dan drwydded, gyda gostyngiad dilynol o 50% yn y taliad TB os caiff yr anifail dan sylw ei ladd oherwydd TB yn y dyfodol.

Ffordd fwy effeithiol o gymell ymddygiad cadarnhaol fyddai ei gwneud yn glir i berchnogion gwartheg pa gamau y gallent eu cymryd i reoli'r achos o TB ar eu daliad mewn ffordd ragweithiol (er enghraifft cyflwyno safonau uchel o fioddiogelwch). Yn ymarferol, byddai'n rhaid i hyn gynnwys cysylltiad uniongyrchol â chymhelliant ariannol.

Bydd cosbau am dorri'r Gorchymyn TB yn cael eu cynnwys mewn unrhyw system newydd ar gyfer taliadau TB. Fodd bynnag, bydd y manylion yn cael eu hystyried ar wahân i'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiynau

14. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cysylltu'r broses o wneud taliadau TB â chyflwyno arferion atal a rheoli'r clefyd. Beth yw'ch barn am hyn?

Mae nifer o sbardunau allweddol ar gyfer newid:

- Mae yna orwariant hanesyddol, hirdymor yn erbyn y gyllideb taliadau TB. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorwario ar y gyllideb derfynol ar gyfer taliadau TB ers blwyddyn ariannol 2015-16. Rhagwelir y bydd gorwariant o tua £7m yn erbyn y gyllideb taliadau TB eto ar gyfer 2021/22.
- Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu ffermwyr am anifeiliaid sy'n cael eu lladd o dan y Rhaglen, felly mae'n rhaid dod o hyd i gyllid i dalu am y gorwariant hwn o flwyddyn i flwyddyn, gan ddargyfeirio cyllid mawr ei angen o feysydd eraill.
- Mae'n debygol y bydd ymdrechion i wella sensitifrwydd profion yn gyffredinol yn arwain at fwy o anifeiliaid yn cael eu lladd o dan y Rhaglen i Ddileu TB, felly bydd gofyn am daliad.
- Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) wedi cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan (fel trydedd wlad) yn Rhaglen Marchnad Sengl yr UE o 2021 ymlaen. Mae hyn yn golygu na fydd cyfle i gael rhagor o arian gan yr UE ar gyfer Rhaglen i Ddileu TB Buchol y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd y taliad terfynol o £1.09m o gyllid yr UE ym mis Awst 2021. Mae'r arian hwn ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB 2020.

Mae'r materion hyn yn golygu bod y polisi presennol yn ymwneud â thaliadau TB yn gwbl anghynaliadwy, a bod angen chwilio am drefniant amgen.

Opsiynau ar gyfer dull amgen o ymdrin â thaliadau TB

Dyma nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer trefn newydd ar gyfer taliadau TB:

1. System sy'n darparu taliadau TB teg a chymesur ar gyfer ceidwaid gwartheg.
2. System sy'n adlewyrchu'n realistig yr adnoddau ariannol sydd ar gael i ariannu taliadau TB.
3. System sy'n hyrwyddo arferion gorau ac yn darparu cymhellion i atal pobl rhag peidio â chydymffurfio.

A. Prisiadau Tabl yn unol â'r system bresennol yn Lloegr

Mae DEFRA yn defnyddio prisiau cyfartalog y farchnad i gyfrifo iawndal ar gyfer gwartheg sy'n cael eu difa oherwydd TB. Bob mis mae DEFRA yn cyhoeddi tabl o werthoedd iawndal ar gyfer 51 categori gwahanol o wartheg. Mae'r categorïau yn seiliedig ar nodweddion canlynol anifail:

- oedran (grŵp)
- rhyw
- statws pedigri
- math (eidion neu odro).

Cesglir data gwerthiant ar gyfer tua 1.5m o wartheg bob blwyddyn i sicrhau bod gwerthoedd y tabl yn adlewyrchu prisiau'r farchnad yn ddigonol (fodd bynnag, nid yw gwybodaeth am werthiannau yn gyflawn ar gyfer gwerthiannau o bob math). Ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid pedigri, defnyddir un mis o ddata prisiau i gyfrifo iawndal. Ar gyfer anifeiliaid pedigri, defnyddir chwe mis o ddata prisiau.

Cyfleoedd:

- Mae dadansoddiad o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn dangos y byddai Llywodraeth Cymru wedi arbed tua £5.1 miliwn mewn taliadau TB yn 2020-21 pe bai prisiadau tabl wedi'u defnyddio yn hytrach na phrисиadau unigol.
- Byddai'n gymharol hawdd gweinyddu'r opsiwn hwn.
- Mae'n hawdd deall yr opsiwn hwn ac mae'n cynnig tryloywder hefyd.
- Byddai'n lleihau cost ffioedd prisiwr hefyd, er ei bod yn fwy anodd amcangyfrif y gostyngiad hwn gan fod angen prisiadau fferm ar gyfer prisiadau tabl o hyd os nad oes digon o ddata'r farchnad ar gael ar gyfer dosbarthiad anifail penodol.

Heriau:

- Byddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar berchnogion gwartheg pedigri yn fwy na pherchnogion gwartheg masnachol. Yn 2020-21, byddai'r gostyngiad yn y Taliadau TB a fyddai wedi bod yn ddyledus yn fwy ar gyfer gwartheg pedigri (-34%) nag ar gyfer gwartheg masnachol (-21%).
- Mae dadansoddiad ystadegol o Daliadau TB yn dangos bod y gwahaniaeth yn 2020-21 ychydig yn fwy ar gyfer gwartheg godro (-27%) na gwartheg eidion (-28%).

Arbediad posibl: £5.1M

B. Prisiadau tabl gyda chynnydd yn y taliad yn seiliedig ar aelodaeth o gynllun achredu ieched anifeiliaid cymeradwy

O dan yr opsiwn hwn, byddai taliadau TB yn cynyddu 10% o'r prisiadau tabl os yw'r perchennog yn gallu dangos ei fod wedi'i gofrestru gyda chorff achredu ieched anifeiliaid cymeradwy. Er mwyn bod yn aelod o gorff achredu cymeradwy, byddai angen bodloni safon benodol o fioddiogelwch ar y fferm a gofynion arferion ffermio da a fyddai'n cael eu cymeradwyo a'u gwirio gan y corff hwnnw. Byddai APHA yn cwblhau gwiriad gweinyddol i sicrhau bod perchennog y gwartheg wedi'i gofrestru gyda chorff achrededig ar yr adeg y datgelwyd bod yr anifeiliaid perthnasol yn adweithyddion.

Cyfleoedd:

- Er mwyn ystyried arferion rheoli'r clefyd, byddai cynnydd posibl yn y Taliad TB sy'n ddyledus yn gysylltiedig ag achrediad y perchennog hefyd.
- Lleihau costau i'r Llywodraeth - Byddai hyn yn lleihau cost ffioedd prisiwr gan na fyddai angen prisiadau ar y fferm os oedd digon o ddata'r farchnad ar gael i ganiatáu cyfrifo prisiad tabl.
- Symud anifeiliaid yn gyflymach - Byddai'r broses hon yn hwyluso'r broses o symud anifeiliaid yn gyflymach gan na fyddai unrhyw oedi i'w prasio cyn eu symud yn y rhan fwyaf o achosion.
- Llai o ymweliadau fferm - Byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r angen am y rhan fwyaf o brisiadau ar ffermydd, ac felly byddai'n helpu i leihau nifer yr archwiliadau y byddai'n ofynnol i berchnogion gwartheg eu hwyluso.
- Hawdd i'w Weinyddu - Byddai'r opsiwn hwn yn gymharol hawdd i'w weinyddu o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Heriau:

- Prisiau gwartheg Cymru - Honnir nad yw prisiadau tabl yn ystyried ansawdd gwartheg Cymru. Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn darparu data ar werthiant fel bod modd talu prisiadau tabl. Gallem archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio data'r farchnad ar dda byw sydd wedi'u cofrestru ar ddaliadau yng Nghymru, neu ddefnyddio data'r farchnad o farchnadoedd gwartheg yng Nghymru.
- Gwerth ychwanegol gan gynllun achredu – Pe bai aelodaeth o gynllun achredu yn arwain at Daliad TB ychwanegol, byddai angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gellid dangos bod aelodaeth o'r fath yn ychwanegu gwerth at allu'r perchennog i reoli TB ar ei ddaliad. Mae'n bosibl y bydd angen sicrhau bod y cynnydd yn y taliad ar gyfer aelodaeth o gorff achrededig yn gymesur â'r gwelliant posibl o safbwynt sefyllfa'r clefyd ar ffermydd sy'n cymryd rhan. Byddai hyn yn sicrhau bod aelodaeth o gynllun perthnasol yn hyfyw ac yn ddeniadol yn ariannol, a'i bod yn cyfrannu'n effeithiol at ddileu TB.

Arbediad posibl: Pe bai 10% o werthoedd y farchnad yn cael eu talu mewn taliadau TB i'r rhan fwyaf o berchnogion, gellid arbed tua £4.3m y flwyddyn, ac eithrio arbedion sy'n cael eu gwneud oherwydd ffioedd priswyr.

C. Taliadau i'w penderfynu gan grŵp annibynnol dan arweiniad y diwydiant. Byddai Ardoll y diwydiant yn talu rhai o gostau'r Taliadau TB.

O dan yr opsiwn hwn, byddai Taliadau TB yn cael eu hariannu mewn ffordd debyg i'r system yn Seland Newydd. Byddai Taliadau TB yn cael eu penderfynu (o fewn paramedrau clir) gan grŵp annibynnol o dan arweiniad y diwydiant gan ystyried meini prawf cymhwysedd megis cydymffurfio â'r Gorchymyn TB a masnachu ar sail risg wrth benderfynu faint o Daliadau TB sy'n ddyledus i bob perchennog.

Byddai'r grŵp hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Llywodraeth ac yn rhannol gan ardoll eidion a godro newydd. Yng Nghymru, telir ardoll ar y cyd (y pen) gan y cynhyrchydd a'r lladdwr/allforiwr i Hybu Cig Cymru ar gyfer gwartheg sy'n cael eu lladd yng Nghymru neu'n cael eu hallforio. Mae ffermwyr godro yn talu ardoll i AHDB.

Gallai'r ardoll newydd hon gael ei chasglu gan AHDB a Hybu Cig Cymru, ond byddai angen archwilio manylion yr agweddau ymarferol cysylltiedig a'r costau posibl.

Cyfleoedd:

- Mae'n bosibl y bydd grŵp o dan arweiniad y diwydiant sy'n helpu i benderfynu faint o daliadau TB y dylid eu gwneud yn annog y diwydiant ffermio i fabwysiadu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r clefyd.
- Byddai'r opsiwn hwn yn creu system taliadau TB fwy cynaliadwy gan y byddai cost system taliadau TB yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant. Gallai'r diwydiant a Llywodraeth Cymru dalu am unrhyw orwariant ar gyllidebau taliadau TB presennol.
- Un o swyddogaethau'r grŵp annibynnol dan arweiniad y diwydiant fyddai penderfynu pryd y dylid lleihau taliadau TB oherwydd achosion o dorri'r Gorchymyn TB. Gallai cyfraniad y diwydiant at y broses hon helpu i atgyfnerthu gofynion y Gorchymyn TB, a gallai ystyried materion fel arferion prynu a hanes perchnogion yn cydymffurfio â deddfwriaeth TB.

Heriau:

- Yn Seland Newydd, sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Anifeiliaid fel corff cyfreithiol annibynnol sy'n gyfrifol am reoli TB buchol. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli TB buchol, a byddai'r bwrdd annibynnol yn gyfrifol am oruchwylio ac argymell faint o daliadau TB y dylid eu gwneud i berchnogion. Felly, ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu mwy o ddylanwad uniongyrchol i'r diwydiant ffermio ar sut y dylid strwythuro'r Rhaglen TB (yn ychwanegol at ymgysylltiad presennol rhanddeiliaid). O ganlyniad, byddai angen rheoli disgwyliadau'r diwydiant ffermio.
- Byddai angen i Drysorlys y DU gymeradwyo unrhyw benderfyniad i greu Ardoll.
- Er y byddai ariannu'r gyllideb taliadau TB yn rhannol yn creu system fwy cynaliadwy, gallai arwain at orwario o hyd gan ei bod yn anodd rhagweld faint yn union o anifeiliaid a fydd yn cael eu lladd oherwydd TB, a'r gost gysylltiedig mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol.
- Gan fod mecanwaith ar gyfer casglu ardoll eisoes ar waith, gallai Llywodraeth Cymru archwilio'r agweddau ymarferol, y costau a'r cyfraddau ardoll posibl sydd eu hangen i ariannu'r system taliadau TB yn rhannol. Byddai angen archwilio ymarferoldeb a goblygiadau sefydlu grŵp annibynnol dan arweiniad y diwydiant, yn debyg i'r cwmni cyfyngedig OSPRI yn Seland Newydd.

Arbediad posibl: Byddai hyn yn dibynnu ar gyfran y gyllideb gyffredinol y byddai'r diwydiant yn ei thalu trwy ardoll.

Cwestiynau

15. A ydych yn cytuno/anghytuno ag unrhyw un o'r 3 chynnig? Eglurwch eich rhesymau.

16. Mae Atodiad 1 i'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r holl gynigion a gafodd eu hystyried gan Fwrdd y Rhaglen i Ddileu TB. A oes unrhyw gynigion eraill sydd angen eu hystyried yn eich barn chi? Os felly, rhowch fanylion.

8. Archwilio'r posibilrwydd o wahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)

Cefndir a rhesymau dros newid

Cafwyd achosion o grŵp o loi ifanc â TB yn y nodau lymff yn gysylltiedig â'u llwybrau treulio, sy'n awgrymu eu bod wedi llyncu'r haint. Gan amlaf, mae'r achosion hyn o TB mewn lloi ifanc yn gysylltiedig â'r arfer o fwydo llaeth buwch amrwd sydd wedi'i eithrio o'r tanc llaeth swmp am resymau eraill, megis cyfnodau tynnu meddyginiaeth neu gyfrif celloedd uchel. Ar adegau, nodir wedyn bod gan y fuwch heintiedig haint TB amhenodol yn y pwrs.

Mae ceidwaid buchesi ag achosion OTFW yn cael eu cynghori i beidio â bwydo llaeth buwch amrwd i loi oherwydd y risgiau posibl. Cynigir archwilio'r posibilrwydd o ddiwygio Gorchymyn TB (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) er mwyn gwahardd bwydo llaeth buwch amrwd i loi mewn achosion TB OTFW.

Cwestiwn

17. A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Eglurwch eich rhesymau.

9. TB a rhywogaethau nad ydynt yn fuchol

A. Archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer defaid a moch yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011

Cefndir a rhesymau dros newid

Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 yn rhoi rheolaethau TB statudol ar gyfer ceirw, geifr a chamelidau, ac mae'n cynnwys trefniadau gorfodol yn ymwneud â nodi, cofnodi, cyfyngiadau symud, profi, lladd ac iawndal. Mae Archwilwyr Milfeddygol yn gallu cyhoeddi Hysbysiadau Gwella Milfeddygol. Mae deddfwriaeth 2011 yn gwahardd triniaeth, brechu a phrofi ar gyfer *M. bovis* oni bai bod APHA yn rhoi caniatâd ysgrifenedig.

Cymharol brin yw'r achosion blynyddol o TB mewn defaid a moch yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i dderbyn gwybodaeth am nifer fach o achosion tybiedig mewn defaid a moch naill ai o ladd-dai neu yn dilyn archwiliad post mortem. Nid yw pob un o'r rhain yn cael eu cadarnhau gan feinweoedd meithrin *M. bovis*. Er yn brin, mae achosion o'r fath yn codi o dro i dro.

Mae darpariaethau deddfwriaethol yn bodoli eisoes ar gyfer ymdrin ag achosion o TB buchol mewn defaid a moch:

- Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008 yn rhoi pwerau ychwanegol i archwilwyr fynd ar dir - Profion a samplau: pŵer mynediad.
- Mae Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn darparu pwerau mewn perthynas â lladd defaid a moch sydd dan amheuaeth o fod â TB.
- Mae trefniadau iawndal ar waith (lefel uwch o iawndal ar gyfer anifeiliaid bridio), ond maent yn dibynnu ar y ceidwad yn eu llofnodi ac yn cytuno iddynt.

Hefyd, ceir gofynion yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 yn ymwneud â hysbysu am glefyd mewn carcassau a rheoli haint o anifeiliaid eraill.

Cynigir y dylid archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi'r gofynion ar gyfer defaid a moch yng Ngorchymyn TB (Cymru) 2011 er mwyn pennu'r un gofynion ar gyfer defaid a moch ag ar gyfer rhywogaethau eraill nad ydynt yn fuchol.

Cwestiwn

18. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn? Eglurwch eich rhesymau.

B. Nodi anifeiliaid nad ydynt yn fuchol at ddibenion profi TB

Cefndir a rhesymau dros newid

Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011, Erthygl 5 yn nodi:

Rhaid i geidwad carw, alpaca, gwanaco, lama neu ficwnia ei farcio neu ei nodi mewn modd a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

Cynigir y dylid gwneud darpariaeth i gadarnhau, **at ddibenion profi TB**, bod yn rhaid gallu nodi anifail nad yw'n anifail buchol trwy ficrosglodyn, rhif unigryw ar dag clust, neu drwy ddull marcio neu nodi a gymeradwyir gan archwilydd.

Pan gaiff unrhyw anifail ei brofi am TB, mae'n hanfodol bwysig bod modd gwahaniaethu rhwng yr anifail hwn ac unrhyw anifail arall. Wrth gynnal profion TB, bu sawl achos o geidwaid anifeiliaid nad ydynt yn fuchol yn gwrthod marcio/nodi eu hanifeiliaid yn briodol, gan ei gwneud yn anodd nodi anifeiliaid sydd wedi cael prawf. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno dulliau nodi statudol ar gyfer y rhywogaethau hyn yn gyffredinol, at ddibenion profion TB, cynigir y dylai'r anifeiliaid hyn gael eu marcio'n briodol fel bod modd eu nodi.

Cwestiwn

19. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn? esboniwch eich rhesymau.

10. Llywodraethu

Cefndir a rhesymau dros newid

Gan fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno Rhaglen o'r newydd, mae'n briodol cynnwys trefniadau Llywodraethu yn yr adolygiad.

A. Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB

Pan sefydlwyd y Rhaglen i Ddileu TB, cyflwynwyd strwythur Llywodraethu. Roedd Bwrdd y Rhaglen yn gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r rhaglen, gan gynnwys monitro'r broses o'i gweithredu.

Cadeirydd y Bwrdd yw Prif Swyddog Milfeddygol Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Y diwydiant ffermio;
- Y proffesiwn milfeddygol;
- Academia;
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion;
- Llywodraeth Cymru.

Gwahoddwyd yr Aelodau i wasanaethu ar y Bwrdd ar sail eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u profiad yn eu meysydd.

Cwestiynau

20. A ydych yn cytuno â swyddogaeth a chynrychiolwyr Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

B. Byrddau Dileu Rhanbarthol

Yn 2008 sefydlwyd tri Bwrdd Dileu TB Rhanbarthol o dan y cyhoeddiad '*Cymru'n Un-Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraeth Cymru*'. Sefydlwyd Bwrdd Rhanbarthol y De-orllewin, Bwrdd Rhanbarthol y De-ddwyrain a Bwrdd Rhanbarthol y Gogledd i fod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng y Rhaglen i Ddileu TB a'r diwydiant ffermio. Nod y Byrddau Dileu TB yw monitro a deall y sefyllfa o ran TB yn eu hardal, cyfrannu at ddatblygu polisi, datblygu syniadau newydd, a defnyddio dull cydgysylltiedig a phendant o ddileu TB yn eu rhanbarth. Mae'r Byrddau yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n geidwaid a chynrychiolwyr eraill o sefydliadau ffermio, milfeddygol a sefydliadau cymorth lleol. Nid yw cynrychiolwyr yn cael eu talu am fynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd, ond gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth.

Sefydlwyd y Byrddau hyn 13 mlynedd yn ôl, ac mae gwaith da wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o safbwynt TB buchol yng Nghymru wedi newid ers 2008, ac mae Rhaglen i Ddileu TB Llywodraeth Cymru wedi newid hefyd. Fodd bynnag, mae aelodaeth y byrddau rhanbarthol wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Mae'n amser ailedrych ar y trefniadau hyn, gan ystyried y ffordd orau o gynnwys rhanddeiliaid yng ngwaith datblygu polisi, lledaenu negeseuon allweddol, a hwyluso cysylltiadau gwell.

Er yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y tri Bwrdd Rhanbarthol ers 2008, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai dyma'r amser iawn i adfywio cyfraniad rhanddeiliaid at y Rhaglen, a hoffai dderbyn safbwyntiau ar y dull mwyaf priodol o gynnwys rhanddeiliaid yn strwythur Llywodraethu'r Rhaglen.

Nod dull adfywio yw:

- Adfywio awydd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn ffordd adeiladol yn y Rhaglen i Ddileu TB.
- Helpu i gryfhau'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant a darparu cysylltiadau â'r gymuned ffermio ehangach, trwy gysylltu â'r diwydiant a derbyn gwybodaeth ganddo i lywio penderfyniadau.
- Cyfrannu mewn ffordd adeiladol at ddatblygu polisiâu newydd, gan gydnabod a pharchu blaenoriaethau a llinellau coch y Llywodraeth.
- Helpu i hwyluso a symleiddio negeseuon allweddol a llif gwybodaeth dwyffordd rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant ffermio; a sefydlu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach.
- Codi ac ystyried materion a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau allweddol y rhaglen i ddileu TB.
- Adolygu cynnydd canlyniadau.
- Darparu cyfle i rhanddeiliaid newydd fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Rhaglen i Ddileu TB.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y gallai grŵp rhanddeiliaid TB a benodir yn gyhoeddus, yn debyg i'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, <https://llyw.cymru/grwp-fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cymru> sydd eisoes wedi'i sefydlu, fodloni nodau ac amcanion y Rhaglen o safbwynt cynnwys rhanddeiliaid. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarferiad penodiadau cyhoeddus ac yn gwahodd ceisiadau gan rhanddeiliaid â diddordeb, yn penodi cadeirydd, ac yn sicrhau bod aelodau yn cynrychioli ystod eang o sectorau a buddiannau. Byddai platfformau amrywiol yn cael eu defnyddio i hysbysebu aelodaeth o'r bwrdd, a byddai disgwyl i ymgeiswyr wneud cais trwy ddangos eu sgiliau a'u profiad sy'n berthnasol i'r rôl fel aelod o'r bwrdd. Byddai Cylch Gorchwyl clir ar gyfer y grŵp yn nodi'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r aelodau, ac yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y grŵp.

Fodd bynnag, mae llawer o opsiynau ar gael ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'n Rhaglen. Mae rhai o'r opsiynau hyn yn cynnwys:

1. Cadw strwythur daearyddol y Bwrdd Rhanbarthol, ond ail-ddechrau'r broses benodi i'r Byrddau a phennu Cylch Gorchwyl clir a phriodol. Byddai'r aelodau yn gwasanaethu ar sail wirfoddol.
2. Creu un grŵp rhanddeiliaid TB a benodir yn gyhoeddus sy'n cwmpasu Cymru gyfan.
3. Creu dau grŵp rhanddeiliaid TB a benodir yn gyhoeddus, un yn cwmpasu'r Gogledd a'r llall yn cwmpasu'r De.
4. Terfynu'r Byrddau Rhanbarthol, a pharhau â Bwrdd y Rhaglen yn unig. Cysylltu â sefydliadau cynrychioliadol unigol er mwyn cynnwys rhanddeiliaid yn y Rhaglen.

Cwestiynau

21. A ydych yn cytuno ag unrhyw un o'r cynigion a amlinellir uchod? Os ydych, nodwch ba un. Os nad ydych, rhowch y rhesymau pam.

22. A ydych yn credu bod dull amgen ar gael? Os ydych, esboniwch ymhellach.

C. Sefydlu Grŵp Cyngori Technegol

Cynigir y dylid cynnwys Grŵp Cyngori Technegol newydd yn nhrefniadau Llywodraethu'r Rhaglen. Byddai'r Grŵp hwn yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen ac yn ystyried materion technegol, er enghraifft brechu gwartheg a diagnosteg TB. Byddai aelodau grŵp o'r fath yn cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd o'r byd academiaidd a'r diwydiant.

Cwestiwn

23. A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Os ydych, awgrymwch ddisgyblaethau gwyddonol a allai ychwanegu gwerth at y Rhaglen. Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

11. Cwestiynau eraill

Cwestiwn 24: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 25: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y ddogfen hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

12. Y camau nesaf

Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich barn ar y cynigion hyn. Dylid anfon ymatebion drwy e-bost erbyn hanner nos ar 8 Chwefror 2022 fan bellaf. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a bydd crynodeb yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi.

Eich manylion

Eich enw	
Eich sefydliad (os yn berthnasol)	
Eich cyfeiriad	
Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad ar ein gwefan. A fyddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw (Byddai/Na fyddai)?	
Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? • Ffermwr/ceidwad • Cynrychiolydd neu sefydliad y diwydiant ffermio • Arwerthwr da byw • Aelod o'r cyhoedd • Milfeddyg • Sefydliad bywyd gwyllt • Arall	

Atodiad 1

Opsiwn	Teitl	Arbediad posibl
1	Dim newid i'r system	£0
2	Perchennog i dderbyn y gwerth achub yn uniongyrchol o'r lladd-dy	£19.0M
3	Prisiadau Tabl yn unol â'r system bresennol yn Lloegr	£5.1M
4	Prisiadau tabl gyda chynnydd yn seiliedig ar waith papur a gweld anifeiliaid yn y lladd-dy ¹	£4.3M
5	50% o werth y farchnad yn ddyledus. Cynnydd hyd at 70% yn ddyledus os yw'r perchennog yn bodloni gofynion penodol	£7.6M
6	Gwerth y farchnad yn ddyledus. £1 yn ddyledus ar gyfer anifeiliaid sydd wedi'u symud i ddaliad dan drwydded.	£4M
7	Grŵp annibynnol dan arweiniad y diwydiant i benderfynu ar yr iawndal sy'n ddyledus. Ardoll y diwydiant i dalu'n rhannol am gostau iawndal TB.	I'w gadarnhau
8	50% o werth y farchnad yn ddyledus ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu tynnu o fuchesi lle ceir achosion parhaus.	£3.4M
9	50% o werth y farchnad yn ddyledus. Perchnogion i drefnu polisi Yswiriant i dalu am weddill gwerth yr anifeiliaid.	£8.0M

¹Cafodd yr opsiwn hwn ei fireinio gan Fwrdd y Rhaglen i Ddileu TB i 'Prisiadau tabl gyda chynnydd i'r taliad yn seiliedig ar aelodaeth o gynllun achrededig cymeradwy'.

Atodiad 2 – Geirfa

APHA - Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

AWBFD - Arolwg o Foch Daeare Marw Cymru Gyfan.

Twbercwlosis buchol (TB) - haint a chlefyd a achosir gan yr organeb *M.bovis*. Mae TB buchol yn heintus i bobl a llawer o rywogaethau anifeiliaid eraill. Mae pasteureiddio llaeth ac archwilio cig yn darparu lefelau uchel o ddiogelwch i bobl. Moch daear a cheirw yw'r prif anifeiliaid gwyllt lletyol sy'n cael eu hystyried yn bwysig wrth drosglwyddo'r clefyd i wartheg. Gall camelidau, ceirw, geifr, defaid a moch gael eu heintio, ond mae defaid a moch yn cael eu hystyried yn llai pwysig wrth drosglwyddo'r haint i wartheg yn y DU. Gwartheg yw'r prif anifail lletyol. Ychydig iawn o wartheg sy'n cael eu gweld â symptomau clinigol o TB, fel peswch neu deneuo, oherwydd y rhaglen brofi ddwys yn y DU. Gall y clefyd barhau heb ei ganfod am gyfnodau hir cyn newid i fod yn gyflwr heintus, neu ledaenu ymhellach yn y corff.

Profion cyffiniol - Profion ychwanegol sy'n cael eu cynnal ar fuchesi sy'n ffinio ag achosion o statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) lle mae asesiad epidemiolegol yn dangos eu bod yn debygol o fod mewn perygl o gael eu heintio.

Achos buches gronig - Caiff buches 'gronig' ei diffinio fel buches sydd â statws heb TB wedi'i ddiddymu (OTFW) ac:

- Sydd wedi bod â statws heb TB wedi'i ddiddymu (OTFW) am 18 mis neu fwy, NEU
- A ddaeth i fod yn OTFW cyn y prawf gwirio 12 mis, yn dilyn achos OTFW cynharach, OND ac eithrio'r achosion ailheintio hynny o TB lle mae'r holl adweithyddion yn anifeiliaid a brynwyd i mewn ers cau'r achos blaenorol, oni bai nad yw gwybodaeth ddilynol am deip moleciwlaidd yn cyd-fynd â'r tarddiad prynu.

Cymorth TB - Cymorth milfeddygol ar gyfer ceidwaid gwartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB.

Cynllun Cyflawni – Mae Cynllun Cyflawni Dileu TB yn rhan o ddogfen y Rhaglen i Ddileu TB. Mae'n nodi mesurau manwl i'w gweithredu. Gellir gweld y Cynllun Cyflawni diweddaraf yma. Y bwriad yw cyhoeddi Cynllun Cyflawni o'r newydd yn ystod haf 2022.

Endemig - clefyd sy'n bresennol drwy'r amser i raddau mwy neu lai mewn poblogaeth.

Genoteip - Cyfansoddiad genetig unigolyn (yn yr achos hwn, cyfansoddiad genetig y bacteriwm *Mycobacterium bovis*).

Prawf IDEXX - Prawf gwaed mewn labordy ar gyfer diagnosis o TB buchol. Mae'r prawf yn canfod gwrthgyrff sy'n cael eu cynhyrchu gan system imiwnedd yr anifail er mwyn nodi a niwtraleiddio organebau *M.bovis*.

Prawf gama interfferon - Prawf gwaed mewn labordy, ar gyfer gwneud diagnosis o dwbercwlosis buchol. Mae'r prawf yn nodi ymateb sy'n cael ei gyfryngu gan gell o system imiwnedd yr anifail i haint *M.bovis*. Gall y prawf nodi anifeiliaid heintiedig yn gynt yn y broses heintio na phrawf croen ac mae'r prawf croen yn methu nodi rhai anifeiliaid heintiedig.

IR - Adweithydd Amhendant - Anifail sydd wedi cael darlleniadau rhwng clir (pasio) ac adweithydd (methu) yn y prawf croen twbercwlin.

Ymweliadau Ei Gadw Allan - Cymorth milfeddygol ar gyfer ceidwaid yn yr ardaloedd ITBAN ac LTBA â phroblemau mynych y mae eu buchesi yn cael prawf cyffiniol clir.

Mycobacterium bovis* neu *M.bovis – yr organeb sy'n gyfrifol am TB buchol.

OTF - Statws heb TB swyddogol

Statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)- Caiff statws heb TB swyddogol buches ei ddiddymu o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae mwy nag un adweithydd yn cael ei ganfod mewn prawf goruchwyllo neu dim ond un adweithydd sy'n cael ei ganfod ond bod tystiolaeth ychwanegol yn awgrymu bod yr haint yn bresennol. Neu
- Nodir bod TB yn bresennol yn dilyn archwiliad post mortem o anifail sydd wedi'i anfon o fuches i ladd-dy.

Mae angen i fuches OTFW gael dau brawf TB clir yn olynol cyn y gellir codi cyfyngiadau symud.

Achosion parhaus mewn buches - Diffinnir buches ag achosion parhaus fel buches sydd wedi bod â statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) am gyfnod o 18 mis neu fwy.

PoMT / PrMT - Prawf TB ar ôl Symud / Prawf TB cyn Symud.

Bwrdd y Rhaglen - Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB yn 2008, ac mae'n gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r rhaglen, gan gynnwys monitro'r broses o'i gweithredu.

Byrddau Rhanbarthol - Hefyd wedi'u sefydlu yn 2008, mae yna dri Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Cyflawni'r Gwaith Dileu sy'n cwmpasu'r Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin. Nod y Byrddau Dileu TB yw monitro a deall sefyllfa'r clefyd TB yn eu hardal, cyfrannu at ddatblygu polisi, datblygu syniadau newydd, a defnyddio dull cydgysylltiedig a phendant o ddileu TB yn eu rhanbarth.

Sensitifrwydd - y tebygolrwydd y bydd prawf yn nodi bod anifail heintiedig yn profi'n bositif.

Dehongliad caeth iawn - lle mae dehongliad mwy caeth o ganlyniadau'r prawf croen wedi'i ddefnyddio er mwyn cynyddu sensitifrwydd profion mewn buchesi os oes arwyddion bod yr haint yn bresennol.

SICCT neu brawf croen - y prif brawf a ddefnyddir yn y DU ar gyfer profion goruchwyllo a rheoli (achosion) TB. Mae'n nodi ymateb imiwnedd sy'n cael ei gyfryngu gan gell i haint *M.bovis*. Mae'r prawf yn cynnwys chwistrellu twbercwlín adar a buchol mewn safleoedd gwahanol ar y gwddf ac yn cymharu maint yr ymateb. Mae'r prawf wedi bodoli ers degawdau, ond mae'n parhau i fod yn brawf goruchwyllo buches da iawn, oherwydd ei benodolrwydd uchel.

Uned ofodol - Mae'r Ardaloedd TB yn gyfuniad o 58 o unedau gofodol. Mae uned ofodol yn cynnwys plwyfi, sydd wedi'u creu trwy ddefnyddio dull tebyg o sefydlu unedau ystadegol ar gyfer cyfrifiadau'r DU. Mae'r unedau gofodol yn gydnaws â'r system CPH ac mae pob un yn cynnwys nifer debyg o fuchesi.

Penodolrwydd - y tebygolrwydd y bydd prawf yn nodi bod anifail nad yw wedi'i heintio yn profi'n negyddol.

Dehongliad safonol - lle mae'r dehongliad arferol o ganlyniadau'r prawf croen wedi'i ddefnyddio gan nad oes unrhyw amgylchiadau arbennig yn bodoli.

Rhaglen i Ddileu TB - a sefydlwyd gyntaf yn 2008, mae'r ddogfen ddiweddaraf sy'n nodi'r dull cyffredinol ar gael yma.

Cyfyngiad TB - Cyfyngiadau symud a osodir ar wartheg a/neu ar ddaliad o ganlyniad i ddod o hyd i dystiolaeth o TB neu achos posibl o TB.